Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Strategaeth Diwylliant Castell-nedd Port Talbot


# 2023

counterculture









# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Croeso | 3 |
| 02 | Ein Strategaeth Diwylliant | 4 |
| 03 | Castell-nedd Port Talbot | 7 |
| 04 | Bywyd Diwylliannol yng Nghalon Ddramatig Cymru | 9 |
| 05 | Yr Hyn rydym ni wedi’i Gyflawni | 13 |
| 06 | Ein Gweledigaeth | 17 |
| 07 | Ein Themâu | 21 |
| 08 | Beth Nesaf | 36 |
| 09 | Mesur ein Llwyddiant | 38 |
| 10 | Cynllun Gweithredu | 40 |
| 11 | Atodiad A: Crynodeb o’r Atebion i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus | 70 |

# 01. Croeso

## Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Swyddog Gweithredol

Croeso i Strategaeth Diwylliant Castell-nedd Port Talbot. Ar ôl ymgynghori â channoedd o unigolion a dwsinau o sefydliadau rydym ni'n gyffrous ynghylch rhannu ein Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â hi.

Wrth i ni ymadfer wedi Covid-19 ac wynebu her aruthrol y newid yn yr hinsawdd ac argyfwng byd natur, rydym ni'n credu bod diwylliant yn offeryn eithriadol o bwerus i'n helpu i ailgysylltu â'n gilydd, cydweithio, a datblygu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen i ni gael hyd i ffyrdd newydd o ddathlu Castell-nedd Port Talbot, ein lle anhygoel, mewn modd cynhwysol ac agored, a rhannu ein hadnoddau fel bod ein holl drigolion ac ymwelwyr yn gallu mwynhau'r gorau o'n celfyddydau, ein treftadaeth a'n chwaraeon.

Mae gen i deimladau angerddol ynghylch sut mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno gwasanaethau sy'n gwella bywydau pobl, a byddwn ni'n defnyddio gwybodaeth fanwl y Cyngor am bob rhan o Gastell-nedd Port Talbot i ddod â phobl ynghyd, i sicrhau bod pob cymuned, p'un a ydyn nhw'n gymunedau sy'n rhannu diddordeb, profiad neu'n gymunedau daearyddol, yn elwa o ddiwylliant, ac i fuddsoddi mewn prosiectau ar draws y fwrdeistref. Fodd bynnag, nid strategaeth i'r Cyngor yw hon – mae ein Strategaeth Diwylliant ar gyfer ein holl bartneriaid gwych, ein helusennau, ein clybiau chwaraeon, a'n grwpiau cymunedol hefyd; oherwydd all neb ohonom ni gyflawni ein gobeithion mawr ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ar ein pennau ein hunain.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n cymryd rhan yn yr ymgyngoriadau niferus sydd wedi llunio'r strategaeth hon. Nawr mae'n bryd i bawb ohonom ni gydweithio i'w gwireddu.

**Mae angen i ni gael hyd i ffyrdd newydd o ddathlu Castell-nedd Port Talbot.**



**Y Cyng. Steve Hunt**
Arweinydd Cyngor
Castell-nedd Port Talbot



**Karen Jones**
Prif Weithredwr
Castell-nedd Port Talbot



# Ein Strategaeth Diwylliant

# 02

# 02. Ein Strategaeth Diwylliant

## Mae ein Strategaeth Diwylliant ar gyfer bwrdeistref sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot, o Waun Cae Gurwen a Dyffryn Aman yn y Gogledd-orllewin i Gynffig yn y De-ddwyrain, ac o Bontneddfechan ym mhen uchaf Cwm Nedd i Dwyni Crymlyn ar lannau Bae Abertawe.




Mae'r Strategaeth Diwylliant wedi cael ei datblygu trwy ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd rhwng hydref 2022 a gwanwyn 2023, a hwyluswyd y gwaith gan dîm o ymgynghorwyr arbenigol a gomisiynwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Er mai'r Cyngor fydd yn cynnull ac yn cydlynu llawer o gamau gweithredu'r strategaeth, mae'n strategaeth i bawb – nid dim ond y Cyngor mae "ni" yn ei gynnwys, ond yr holl bobl a sefydliadau sy'n cydweithio ar draws Castell-nedd Port Talbot i greu arlwy diwylliannol y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Bwriad ein strategaeth yw helpu i wella iechyd a hapusrwydd ein holl gymunedau – trefol, gwledig ac arfordirol – a dod â llawenydd i drigolion ac ymwelwyr o bob oed, gallu a hunaniaeth, trwy gyfranogi mewn diwylliant. Rydym ni'n gobeithio y bydd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn, dinasyddiaeth a lle a rennir.

Mae hefyd yn strategaeth ar gyfer ein hymarferwyr diwylliannol niferus, ein clybiau, ein grwpiau, ein lleoliadau cynnal, ein sefydliadau, ein busnesau, a'n darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Bydd ein strategaeth yn helpu i gynyddu cynulleidfaoedd, recriwtio a chadw aelodau, denu ymwelwyr, rhoi hwb i'r economi, a pharatoi'r ffordd ar gyfer hybu ffyniant a chynaliadwyedd. Ei bwriad yw helpu i sicrhau bod ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hamgylchedd hanesyddol yn cael eu diogelu ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae “diwylliant” yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac mewn gwahanol adegau a lleoedd. Yn ein strategaeth ninnau rydym ni’n defnyddio’r term mewn ffordd eang i gwmpasu treftadaeth, chwaraeon a’r celfyddydau: y diwylliant a rennir sy’n diffinio ac yn uno’r rhan hanesyddol hon o Gymru; a’r cynnig diwylliannol amrywiol sy’n cael ei ddathlu heddiw gan unigolion a grwpiau gwahanol, yn ymwelwyr ac yn rhai sy’n galw Castell-nedd Port Talbot yn gartref.

Mae’r gwaith wedi cynnwys adolygiad manwl o’r data a’r llenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli ac yn dod i’r amlwg gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Cadw, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ac eraill, i sicrhau bod y strategaeth wedi’i seilio ar sylfaen gadarn o dystiolaeth ac yn cyfateb yn agos i flaenoriaethau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Elfen allweddol o hyn yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (DLlCD), deddfwriaeth arloesol Cymru i annog ystyriaethau hirdymor a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Lluniwyd y Strategaeth Diwylliant ar ei hyd i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf, ac mae ein proses ar gyfer ei chreu wedi pwysleisio’n gryf y pum ffordd o weithio a geir yn DLlCD – meddwl ar gyfer yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys – yn ogystal â’r gwaith rhagorol mae’r Cyngor a’i bartneriaid eisoes yn ei wneud i gyflawni DLlCD.

> **Nod ein Strategaeth Diwylliant yw crisialu ysbryd unigryw Castell-nedd Port Talbot.**

Mae cyfatebiaeth agos hefyd rhwng y Strategaeth Diwylliant a Chynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Castell-nedd Port Talbot a’i Strategaeth Treftadaeth, yn ogystal â Chynllun Corfforaethol 2022-27, lle mae gallu cenedlaethau’r dyfodol i fwynhau amgylchedd, diwylliant a threftadaeth lleol yn flaenoriaeth allweddol. Wrth ddatblygu ein Strategaeth, buom ni’n ystyried dros hanner cant o bolisïau a chynlluniau eraill, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft, a Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg.

Nod ein Strategaeth Diwylliant yw crisialu ysbryd unigryw Castell-nedd Port Talbot, nodi’r themâu sy’n ffurfio ein hunaniaeth ddiwylliannol, a’n helpu i edrych ar gyfleoedd i’r dyfodol yn hyderus, gan wybod y gall ein stori ddenu ac ysbrydoli pawb sy’n byw yn lleol a phawb sy’n ymweld â’r lle balch hwn: Calon Ddramatig Cymru.





# Castell-nedd Port Talbot

# 03

# 03. Castell-nedd Port Talbot

**Mae Castell-nedd Port Talbot yn ymestyn o'r arfordir i gyrion Bannau Brycheiniog, ac mae'r 142,000 o drigolion a geir yno yn mwynhau tirluniau gwych ac ardaloedd o harddwch naturiol godidog. Mae tua hanner ein poblogaeth yn byw yn nhrefi Castell-nedd a Phort Talbot, ond mae gennym ni lawer o drefi a phentrefi eraill llewyrchus, yn ogystal â phoblogaethau gwledig sylweddol. .**

Mae ein poblogaeth wedi bod yn tyfu mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda chynnydd o 1.8% rhwng 2011 a 2021. Bu cynnydd yn arbennig yn nifer y bobl dros 65 oed (cynnydd o 15.5%) a nifer y plant o dan 15 (cynnydd o 2.5%). Mae ein trigolion yn dod yn fwy amrywiol ar lawer ystyr, gydag 1.6% o bobl yn nodi hunaniaeth Asiaidd, a 0.4% yn Ddu yn y cyfrifiad diweddaraf, dwy garfan lle gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Mae ein heconomi yn gartref i ystod eang o fusnesau. Yn ogystal â Tata Steel, y mae eu gwaith dur ym Mhort Talbot ymhlith y mwyaf yn Ewrop, mae'r rhain yn cynnwys Amazon, Intertissue, ac Ecolab. Yn ogystal â'n cryfderau o ran gweithgynhyrchu, rydym ni'n annog twf yn ein sector gwasanaethau, gyda buddsoddiadau cyffrous megis Campws y Bae, Prifysgol Abertawe, gwerth £450m. Mae Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot yn un o'r darparwyr addysg mwyaf yng Nghymru, gyda miloedd o fyfyrwyr yn astudio ar wyth campws ar draws y wlad. Yn ddiweddar rydym wedi cael ein dewis yn gartref i un o Borthladdoedd Rhydd (Freeports) newydd y Deyrnas Unedig, fydd yn cynyddu buddsoddiad yng Nghastell-nedd Port Talbot yn sylweddol, ac yn helpu i'n rhoi ar y blaen yn y chwyldro ynni gwyrdd, gan sicrhau swyddi gwyrdd am gyflog da i'n trigolion.

Mae ein hasedau naturiol yn odidog, ac yn cynnwys traethau, coetiroedd hynafol naturiol a rhai a blannwyd, ucheldir, a dyffrynnoedd afonydd. Mae Castell-nedd Port Talbot yn gartref i 14 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a phum gwarchodfa natur leol.

Ochr yn ochr â'r cryfderau hyn mae Castell-nedd Port Talbot yn wynebu heriau, gan fod 24% o'n poblogaeth yn nodi bod ganddynt anableddau, a mwy na 12% yn darparu gofal di-dâl sylweddol. Mae hyd oes ddisgwyliedig a hyd oes ddisgwyliedig iach yn is yng Nghastell-nedd Port Talbot nag yng ngweddill Cymru, ac mae bwlch sylweddol rhwng y rhai mwyaf cefnog a'r tlotaf.

Mae'n hanfodol bod yr hyn rydym ni'n ei gynnig o ran diwylliant yn adlewyrchu natur fythol-newidiol ein poblogaeth, a lluniwyd ein Strategaeth Diwylliant ar gyfer pawb.



# Bywyd Diwylliannol yng Nghalon Ddramatig Cymru

# 04

# 04. Bywyd Diwylliannol yng Nghalon Ddramatig Cymru

**Bu pobl yn gweithredu'n greadigol yng Nghastell-nedd Port Talbot, Calon Ddramatig Cymru, ers canrifoedd. Mae ein cyndeidiau wedi gadael syniadau, cymunedau, adeiladau, arferion a thraddodiadau rhyfeddol yn eu sgîl, ac mae'r rhain i gyd yn cyd-fynd â harddwch naturiol rhyfeddol y lle hwn sy'n eiddo i ni.**



CASTELL-NEDD PORT TALBOT
Calon Ddramatig Cymru

Dim ond ers 27 mlynedd mae Castell-nedd Port Talbot yn Fwrdeistref Sirol ddynodedig, ond mae ein hanes o ran diwylliant dynol yn ymestyn yn ôl 6,000 o flynyddoedd, ac yn ymfalchïo mewn hanesion am arloesi, ynni, ffydd, diwydiant, peirianneg, chwaraeon, perfformiad a phobl sydd ag arwyddocâd byd-eang.

Rhan o wead ein pobl a'r lle hwn yw diwylliant a gallu creadigol: o Barc Gwledig Margam i Michael Sheen, Parc y Gnoll i Ganolfan Celfyddydau Pontardawe, a Glyn Cwm Du i Draeth Aberafan. Mae Castell-nedd Port Talbot yn dal i gynnig lleoedd i bobl ymgynnull a phrofi pob math ar ddiwylliant, ac i annog a pharatoi sêr diwylliant a chwaraeon i'r dyfodol. Mae ein lleoliadau niferus ar gyfer y celfyddydau, ein safleoedd hanesyddol, ein cyfleusterau chwaraeon, ein parciau a'n mannau agored, ar y cyd â'n pobl anhygoel, yn creu lle cyffrous i weithio, gorffwys a chwarae ynddo.

Wrth gwrs, mae diwylliant yn wynebu heriau ac anawsterau yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y mae ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn sgîl cau Amgueddfa Castell-nedd ac Amgueddfa Glofa Cefn Coed nid oes gan y fwrdeistref bellach amgueddfa na chasgliadau a achredwyd. Er bod llawer o'n cymunedau wedi ymateb yn wych i her cynnal llyfrgelloedd yn wirfoddol, mae'r diffyg llyfrgelloedd yng ngofal y cyngor yn dal yn golled fawr. Dangosodd ein hymchwil ar gyfer y Strategaeth Diwylliant faint o grwpiau chwaraeon, celfyddydau a threftadaeth cymunedol sy'n cael trafferthion oherwydd chwyddiant, yn arbennig yng nghyswllt costau ynni. Mae ein Strategaeth Diwylliant yn cydnabod y gwirioneddau hyn, yn cyfaddef na allwn ddatrys pob un ohonynt, ac yn ceisio cael hyd i ffyrdd uchelgeisiol, cyflawnadwy o symud ymlaen. Rydym ni'n hyderus y bydd diwylliant yn ffynnu yng Nghastell-nedd Port Talbot oherwydd yr asedau gwych sydd gennym ni.

## Y tirlun, byd natur, ac ardaloedd awyr agored

Yng Nghastell-nedd Port Talbot y ceir rhai o'r mannau awyr agored mwyaf ysgubol yn y rhanbarth, gan gynnwys Parc Gwledig y Gnoll, Parc Jersey, traeth Aberafan, Foel Fynyddau, Parc Gwledig Margam, a Gwlad y Sgydau. Yn ogystal â bod yn gartref i chwe ardal gadwraeth, mae gennym ni hefyd chwech o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a dau dirlun hanesyddol dynodedig yng Nghynffig a Thwyni Margam, a Mynydd rhyfeddol Margam. Mae modd cyrraedd ein mannau hardd ar hyd ystod eang o lwybrau halio wrth y gamlas, trywyddau beiciau mynydd, a llwybrau troed, ac mae llawer o botensial i wella mynediad a chyfleusterau i bawb ymhellach.

## Adeiladau treftadaeth

Rydym ni'n ymfalchïo ein bod yn gartref i lawer o adeiladau hanesyddol neilltuol, gan gynnwys 44 â chofrestriad Gradd I neu Radd II*, ac mae 9% o adeiladau'r Fwrdeistref wedi'u rhestru ar Radd II neu'n uwch (o gymharu â 7% yng Nghymru gyfan). Adeiladwyd llawer ohonynt yn sgîl cyfraniad sylweddol Castell-nedd Port Talbot i'r chwyldro diwydiannol, gan gynnwys Castell Margam, Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, Camlesi Nedd, Tenant a Thawe, a Doc Brunel yn Llansawel. Ond mae ein treftadaeth yn mynd nôl yn llawer pellach na hynny, ac yn cynnwys adeiladau hŷn o'r radd flaenaf megis Abaty Nedd ac Eglwys Abaty'r Santes Fair.

## Lleoliadau i'r Celfyddydau a llyfrgelloedd

Mae ein tri phrif leoliad i'r celfyddydau (Neuadd Gwyn, Canolfan Celfyddydau Pontardawe a Theatr y Dywysoges Frenhinol) fel ei gilydd yn cynnig rhaglen o safon o ran digwyddiadau diwylliannol, cyngherddau a doniau; gan roi adloniant i'r trigolion, denu ymwelwyr, a chefnogi'r economi yng nghanol y trefi yn y dydd a chyda'r hwyr. Rydym hefyd yn gartref i nifer o leoliadau llai, sydd yng ngofal y Cyngor ac ystod o grwpiau cymunedol a gwirfoddol, ac yn cyflwyno dramâu, perfformiadau, ffilmiau, dosbarthiadau celf, a mwy. Mae'r Cyngor yn rheoli wyth o lyfrgelloedd, gan gynnwys llyfrgell newydd sbon (2023) Castell-nedd, ac mae gennym ni hefyd saith llyfrgell sydd o dan reolaeth gymunedol.

## Cyfleusterau chwaraeon

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ystod o gyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys saith canolfan hamdden gyhoeddus. Mae gwirfoddolwyr ymroddedig yn cynnal amrywiaeth eang o glybiau pêl-droed, clybiau rygbi, clybiau criced a mwy. Mae ein mannau awyr agored yn amgylchedd gwych ar gyfer digwyddiadau cyfranogiad chwaraeon ar raddfa fawr, gan gynnwys Rhedfa Parc y Gnoll a 10k elusennol Parc Gwledig Margam.

## Gwyliau a digwyddiadau

Rydym ni'n gartref i ddigwyddiadau a gwyliau cyffrous, sy'n dod â'r trigolion ac ymwelwyr at ei gilydd i fwynhau cerddoriaeth, chwaraeon, bwyd, y celfyddydau a mwy. Uchafbwyntiau rheolaidd yn ein rhaglen o ddigwyddiadau yw Gŵyl In It Together, Gŵyl Farcutiau Ryngwladol Margam, Reid y Ddraig, Gŵyl Pontardawe, y Pencamwriaethau Beicio Mynydd, gwyliau bwyd, a Gŵyl Traeth Aberafan. Rydym ni'n gyffrous y byddwn ni'n croesawu Eisteddfod yr Urdd i Barc Gwledig Margam yn 2025.

## Pobl

Ein pobl yw ein hased pennaf. Mae'r cenedlaethau a'n rhagflaenodd wedi rhoi treftadaeth gyfoethog i ni o ran iaith, arferion a thraddodiadau, ac mae gennym hanes hir o gynhyrchu doniau neilltuol yn y celfyddydau perfformio a gweledol (sy'n cynnwys Richard Burton, Ivor Emmanuel, Katherine Jenkins, Ray Milland, Max Boyce, Bonnie Tyler, Andrew Vicari, a Michael Sheen) a chwaraeon (gydag un ardal, Trebannws, yn meithrin y sêr rygbi rhyngwladol Rob Jones a Justin Tipuric!). Yn bwysicach fyth, mae ein hardal yn llawn arwyr diymhongar sy'n gwirfoddoli i gyflawni rhyfeddodau mewn parciau, gerddi, archifau, tai hanesyddol, a chanolfannau celfyddydol a chymunedol. Yn ogystal â'n saith llyfrgell gymunedol, mae gennym ni lu o grwpiau gwirfoddolwyr y mae eu hymdrechion yn gwneud Castell-nedd Port Talbot yn lle gwell i fyw ynddo.

> **Rydym ni'n gyffrous y byddwn ni'n croesawu Eisteddfod yr Urdd i Barc Gwledig Margam yn 2025.**





# Yr Hyn rydym ni wedi'i Gyflawni

# 05

# 05. Yr Hyn rydym ni wedi'i Gyflawni

**Mae ein Strategaeth Diwylliant yn gyfnod newydd yn ein huchelgais ar gyfer rôl y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth ar draws ein cymunedau, gan adeiladu ar y pethau da rydym ni wedi llwyddo i'w cyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf.**

Fel ardaloedd eraill ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig, mae sefydliadau diwylliannol a chreadigol yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael trafferthion cyllid, gan fod Covid-19 wedi bod yn ergyd galed i refeniw a gwirfoddoli. Serch hynny, rydym wedi sicrhau rhai buddsoddiadau mawr, ac wedi cael rhai llwyddiannau gwych, gan gynnwys:

**Llyfrgell a chanolfan hamdden newydd Castell-nedd**, sy'n cynnig cyfleusterau o safon uchel i'r gymuned. Mae'r ganolfan hamdden yn cynnwys campfa gyda 100 o safleoedd a dwy stiwdio ymarfer corff gyda'r cyfleusterau diweddaraf, pwll nofio chwe lôn, 25 metr o hyd, jacuzzi, sawna, ystafell stêm a chaffi. Mae'r llyfrgell newydd yn cynnig amrywiaeth gwych o lyfrau i bob oed, yn ogystal â chyfleusterau cyfrifiadura a mannau cyfarfod. Elfen bwysig, mewn esiampl wych o'r celfyddydau a diwylliant yn helpu i adfywio ac adnewyddu canol trefi, yw bod y cyfleusterau newydd yn nes at ganol y dref. Mae nifer aelodau'r ganolfan hamdden wedi dyblu yn y chwe mis cyntaf ers agor. Ar ben hynny, rydym ni wedi derbyn £186,000 ers 2018 i adleoli a moderneiddio Llyfrgell Sgiwen a datblygu Gofod Gwneuthurwyr (Makerspace) yn llyfrgell Port Talbot.

Mae **Canolfan Celfyddydau Pontardawe** a **Theatr na nÓg** yn bartneriaid hanfodol ym Mhortffolio Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru, fel partneriaid hanfodol ar gyfer helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau. Mae Theatr na nÓg wedi bod yn adrodd hanesion arobryn ers dros 30 mlynedd, gan danio dychymyg pobl ifanc yn Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal â chynyrchiadau theatr neilltuol, mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe yn gartref i ystod eang o gerddoriaeth, comedi 'stand-up', sinema a gweithgareddau cymunedol, ac mae ganddi grŵp cyfeillion bywiog. Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i weithio yn Gymraeg, ac i sicrhau bod y Gymraeg yn hygyrch ac yn ddifyr i ddysgwyr.

Bu Castell-nedd Port Talbot yn llwyddiannus yn Rownd 2 Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan sicrhau dros £10m i **Barc Gwledig Ystâd y Gnoll**. Bydd hyn o fudd i drigolion ac ymwelwyr, gan y bydd llety newydd i ymwelwyr ar y safle, mynediad i seleri Tŷ'r Gnoll, y rhaeadrau hanesyddol bwysig yn cael eu hadfer, a chyfleusterau gwell o ran caffi, chwarae, a chanolfan ymwelwyr.




Mae gwaith rhyfeddol ein chwe llyfrgell sy'n cael eu rheoli'n gymunedol (Blaengwynfi, Llansawel, Cymer, Gwaun Cae Gurwen, Resolfen, a Thaibach) wedi golygu nad oedd rhaid i ni golli mannau cymunedol bywiog, fel sydd wedi digwydd mewn cynifer o leoedd ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ogystal â llyfrau a mynediad i'r rhyngrwyd, maen nhw'n darparu amrywiaeth o grwpiau, clybiau a dosbarthiadau, ac maen nhw'n bwysig fel mannau cynnes y ceir mynediad iddynt am ddim. Mae gan lawer ohonynt hefyd bresenoldeb llewyrchus ar-lein, ac maent yn bodloni holl safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â'n Strategaeth Diwylliant, rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Adeiladau Treftadaeth, gyda chyllid o £250,000 o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, fydd yn ein helpu i ddeall beth mae angen i ni ei wneud i ofalu am ein hamrywiaeth trawiadol o adeiladau rhestredig a henebion, ac i ddathlu a hyrwyddo'r grwpiau rhyfeddol o wirfoddolwyr sy'n ymgyrchu drostyn nhw ac yn gofalu amdanyn nhw.

HERITAGE FUND

> **Rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Adeiladau Treftadaeth, gyda chyllid o £250,000 o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.**

# Astudiaethau Achos: Llyfrgell a Chanolfan Hamdden Newydd Castell-nedd

Yn sgîl datblygiad llyfrgell a chanolfan hamdden newydd Castell-nedd cyflwynwyd hefyd chwe uned fanwerthu/fasnachol a gofod cyhoeddus newydd o safon uchel yng nghanol y dref. Un o brif sbardunau'r cynllun, a ariannwyd yn rhannol trwy gronfa Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru, oedd symud cyfleusterau'n nes i ganol y dref, darparu gwell mynediad trwy drafnidiaeth gyhoeddus, a chynyddu nifer y bobl fyddai'n mynd i fusnesau eraill canol y dref.

Lluniwyd y ganolfan hamdden a'r llyfrgell i fod yn fannau sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion yn y gymuned. Mae'r ganolfan hamdden yn cynnwys caffi yn ogystal â champfa, ystafelloedd ymarfer, pwll nofio, a chyfleusterau sba. Mae'r llyfrgell newydd nid yn unig yn cynnig ystod eang o lyfrau (30,000!) i bob oed, ond hefyd gyfleusterau cyfrifiadura helaeth, ardal ymchwilio i hanes teulu a chasgliad o astudiaethau lleol, mannau cyfarfod i ystod o grwpiau cymunedol, a chyntedd ac ardal sylweddol i grwydro ynddi ar gyfer arddangosfeydd ac arddangosiadau bychain. Mae llyfrgell y plant mewn man ag arddull benodol yng nghanol y llyfrgell, ac wrth i'r cyfleuster gael ei wella mae wedi bod yn eithriadol boblogaidd, gyda nifer yr ymwelwyr, nifer yr eitemau a rhyddhawyd, a nifer yr aelodau newydd i gyd yn uwch na chyn Covid-19.

Mae'r adeiladau'n fodel ardderchog ar gyfer ein huchelgais ehangach, sef creu mannau cyhoeddus y mae modd i wahanol grwpiau eu defnyddio'n helaeth ac yn ddwys, sydd hefyd yn cyfrannu at greu lleoedd mewn trefi a phentrefi. Yn ogystal â defnyddio arian cyhoeddus mewn modd effeithiol, mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i greu ymdeimlad dyfnach o gymuned, wrth i bobl â gwahanol ddiddordebau rannu cyfleusterau. Mewn oes pan fo pawb ohonom yn ymwybodol o ôl troed carbon sylweddol adeiladau, mae mwyafu defnydd o bob cyfleuster hefyd yn rhan bwysig o'n taith at sero net.

> **Mae'r llyfrgell newydd nid yn unig yn cynnig ystod eang o lyfrau (30,000!) i bob oed, ond hefyd gyfleusterau cyfrifiadura helaeth.**

# Ein Gweledigaeth

# 06



# 06. Ein Gweledigaeth

**Erbyn 2030 rydym am i Gastell-nedd Port Talbot ddod yn gyrchfan a gydnabyddir yn genedlaethol, gydag enw am amrywiaeth o chwaraeon, treftadaeth, celfyddydau a diwylliant hygyrch, o'r safon uchaf, ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. Bydd ein harlwy diwylliannol ardderchog yn cyfrannu at wella llesiant pawb, gan helpu i gyflawni pob un o saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd ein diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a bydd y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth yn creu swyddi medrus sy'n rhoi boddhad, yn gwella iechyd pobl, ac yn sicrhau twf cynaliadwy yn ein heconomi.**



Bydd pobl yn fwy ymwybodol o'n treftadaeth naturiol neilltuol, a fydd yn cael ei diogelu fwyfwy wrth i ni roi sylw i argyfwng yr hinsawdd a byd natur. Bydd Parc y Gnoll a Pharc Margam, ein parciau hanesyddol enwog, yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac yn gartref i ystod eang o ddigwyddiadau pwysig o safon, yn ogystal â denu degau o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Bydd ein Strategaeth Adeiladau Treftadaeth yn helpu i sicrhau ein bod ni'n gallu diogelu ein hasedau pwysicaf o ran treftadaeth adeiledig. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid a chyllidwyr i wneud gwaith adfer pwysig ar safleoedd allweddol, gan ddatblygu cynlluniau clir ar gyfer Castell, Parc ac Eglwys Abaty Margam, Abaty a Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, Doc Brunel yn Llansawel, Aberdulais, Cefn Coed, a'r camlesi. Byddwn ni'n rhoi'r prosiect mawr a gynlluniwyd ar gyfer Parc y Gnoll ar waith. Wrth i ni adnewyddu adeiladau a'u hadfer, ein blaenoriaeth fydd creu mannau diwylliannol hyblyg sy'n gallu cynnig llawer o ddefnyddiau gwahanol i'w cymunedau.

Bydd canol y trefi yn cael eu hailfywiogi â rhaglenni uchelgeisiol o ddigwyddiadau, trwy gomisiynu celf gyhoeddus bwysig, ac â busnesau creadigol newydd a rhai sy'n tyfu, a phrosiectau cymunedol cynhwysol. Bydd trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig yn elwa o ddigwyddiadau newydd a gwyliau sy'n denu cynulleidfaoedd amrywiol, gyda ffocws penodol ar bobl nad yw ein harlwy diwylliannol presennol yn darparu digon ar eu cyfer.

Bydd mwy o bobl yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, a byddwn ni'n gwneud gwahaniaeth i iechyd a llesiant trwy chwaraeon tîm, canolfannau hamdden, gweithgareddau ffitrwydd, digwyddiadau torfol, ac wrth i unigolion a theuluoedd ymarfer yn ein mannau awyr agored gwych. Bydd ein hadeiladau, ein gweithgareddau a'n digwyddiadau yn fwyfwy hygyrch i bobl ag ystod eang o anableddau.

Bydd ein casgliadau amgueddfa yn cael eu hailachredu, a byddwn ni'n eu defnyddio i adrodd hanesion hudol am ein pobl a'n hardal, mewn ystod eang o leoliadau mewn trefi a phentrefi ar draws Castell-nedd Port Talbot, gan ddefnyddio arddangosfeydd o bob math a rhyngweithio digidol. Byddwn ni'n cynnal ein treftadaeth ddiwydiannol ddigyffwrdd, gan adrodd hanesion arferion a thraddodiadau y cymunedau niferus sy'n rhan o'n treftadaeth gyfoethog yn CNPT, a'u helpu i oroesi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd niferoedd twristiaid yn tyfu mewn modd cynaliadwy, a byddwn ni'n canolbwyntio'n arbennig ar gynyddu nifer yr arosiadau dros nos, ochr yn ochr â mentrau i sicrhau bod hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol. Bydd pobl leol yn gallu mwynhau trefi a phentrefi sydd ag amrywiaeth cynyddol o gaffis, bariau, bwytai, orielau, clybiau chwaraeon a busnesau creadigol.

Byddwn ni'n datblygu ffyrdd newydd o weithio ar y cyd rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bydd y Cyngor yn rhoi arweiniad clir, a bydd pobl ddawnus o amrywiol sectorau sy'n cynnwys iechyd, addysg a thrafnidiaeth yn helpu i ddylunio a chyflwyno celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon y mae modd i bawb gael mynediad iddynt ym mhob man.



# Astudiaethau Achos: Parc Gwledig Tŷ'r Gnoll

Yn 1822, disgrifiodd John Neale Dŷ'r Gnoll fel un o breswylfeydd gwychaf Cymru, ond erbyn 1957 roedd wedi dadfeilio i'r fath raddau nes bod rhaid ei ddymchwel. Fodd bynnag, cafodd y tiroedd fywyd newydd ar ffurf parc gwledig, ac mae miloedd o bobl yn eu mwynhau bob mis – gan gynnwys llawer sy'n dod ar gyfer Rhedfa Parc Castell-nedd neu i weld y Goeden Gau – derwen sydd wedi bod yn Goeden y Flwyddyn yng Nghymru!

Yn sgîl eu gweledigaeth o ddefnyddio safleoedd allweddol ym Mro Nedd i ddenu ymwelwyr i Gymoedd Nedd, Afan a Thawe, cyflwynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot gynnig llwyddiannus yn ddiweddar i wella Parc Gwledig y Gnoll. Bydd y prosiect uchelgeisiol hwn yn:

- Ailsefydlu pwysigrwydd y parc fel datblygiad hanesyddol allweddol ym Mro Nedd.
- Atgyweirio ac adfer nodweddion treftadaeth Rhestredig, gan gynnwys strwythurau, gerddi a thirluniau.
- Cyflwyno cyfleusterau o safon i ymwelwyr, gan gynnwys caffi gwell a chanolfan ymwelwyr.
- Helpu i hyrwyddo Bro Nedd trwy frandio, arwyddion, a dehongli.
- Gwella bioamrywiaeth Parc Gwledig y Gnoll.
- Defnyddio cynnyrch lleol, iach, o safon uchel, sy'n cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy.
- Trefnu bod gwarcheidwaid a pharcmyn yn cefnogi gweithgareddau addysgiadol ynghylch y tirlun lleol a threftadaeth.
- Sicrhau ffocws newydd ar iechyd a llesiant, gyda gwell mynediad i gadeiriau olwyn, a gwneud y parc yn fwy dementia-gyfeillgar.
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth, yn arbennig ar gyfer cerdded a beicio.

Elfen ganolog o'r cynlluniau yw ailsefydlu safle Tŷ'r Gnoll, fel bod pobl yn gallu cael mynediad i'r hen seleri, a darparu dehongli digidol a chorfforol i ddangos hanes y tŷ i ymwelwyr ac adrodd hanes y bobl a fu'n byw a gweithio yno. Bydd modd defnyddio'r mannau a adferir i gynnal digwyddiadau a pherfformiadau mewn cyd-destun ysblennydd.



Mae'r dull gweithredu arfaethedig yn cynnwys cydweithio manwl a chynnwys cyrff cymunedol a phartneriaid menter megis yr Ymddiriedolaeth Goetir, Cyfeillion y Parc, a Rhedfa'r Parc, gyda chyfleoedd i fentrau cymunedol lleol fod yn gyfrifol am y siop a'r caffi.


# Ein Themâu

# 07



# 07. Ein Themâu

**Mae ein pum thema – arloesi, ynni, iechyd, doniau, a hefyd calon Gymreig – wedi cael eu dewis yn dilyn ymgynghori helaeth, ac maen nhw'n adlewyrchu hanes a phersonoliaeth unigryw Castell-nedd Port Talbot ac anghenion diwylliannol ein trigolion a'n hymwelwyr. Lluniwyd y themâu i ysbrydoli creadigrwydd ein cymunedau a darparu fframwaith ar gyfer ein sefydliadau celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth wrth iddyn nhw ddatblygu eu prosiectau a'u blaenoriaethau.**




## Arloesi

**Mae ein thema Arloesi yn adeiladu ar hanes hir Castell-nedd Port Talbot o arloesi a bod yn gyntaf. Byddwn ni'n creu gwaith celf newydd a digwyddiadau, yn datblygu doniau newydd, yn torri tir newydd o ran ffyrdd o weithio, ac yn adrodd ein stori mewn ffyrdd newydd, llawn dychymyg.**

Mae gennym hanes o arloesi sy'n ymestyn yn ôl ymhell dros fil o flynyddoedd, ac mae cysylltiad agos rhwng hynny a'n tirlun naturiol anhygoel. Sefydlodd Ulrich Frosse un o'r gweithiau copr cyntaf yng Nghymru yn 1584; datblygodd Isambard Kingdom Brunel ei gatiau loc haearn eiconig oedd yn arnofio yn Llansawel, tra bod gwaith haearn Mynachlog Nedd, a sefydlwyd ar ddiwedd y 18fed ganrif ar lannau afon Clydach, yn hanfodol bwysig ar gyfer hanes holl ddiwydiant trwm de Cymru, oedd yn lleoliad arloesol o ran datblygu injans stêm, a allforiwyd ar draws y byd wedi hynny. Ysbrydolwyd y naturiaethwr byd-enwog, Alfred Russel Wallace, gan Fro Nedd i ddatblygu ei ddiddordeb cyntaf o ddifri yn hanes byd natur. Yn fwy diweddar mae'r harbwr dŵr dwfn ym Mhort Talbot a chreu parciau newydd a llwybrau beicio ar yr hen dirlun glofaol wedi gweddnewid Castell-nedd Port Talbot unwaith yn rhagor.

Mae Parc Gwledig Margam yn safle treftadaeth ag arwyddocâd cenedlaethol, sy'n rhan o dirlun rhestredig Gradd 1. Dyma un o



safleoedd pwysicaf treftadaeth Cymru, ac mae'n cynnwys sawl Heneb Gofrestredig a llu o adeiladau rhestredig Gradd 1 a Gradd 2, sy'n cynnwys y Castell, yr Orendy ac adfeilion yr Abaty. Mae'n gyrchfan o ddewis i bobl leol a thwristiaid sy'n ymweld â'r ardal, ac fe allai dyfu mewn blynyddoedd i ddod. Nodwyd Castell Margam ei hun fel adeilad sydd "mewn perygl" gan Cadw, a bydd angen buddsoddiad sylweddol i atgyweirio a chadw'r ased hanesyddol pwysig yma er budd cenedlaethau'r dyfodol.


Rydym ni'n arloeswyr yn y celfyddydau hefyd, gyda pherfformwyr o Gastell-nedd Port Talbot sy'n enwog yn rhyngwladol, o Syr Richard Burton i gelf stryd gyfoes Port Talbot.

Mae cyflawni uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am ffyrdd newydd, arloesol o feddwl a gweithredu. Mae awydd cryf i ryngweithio'n ddiwylliannol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae llawer o sefydliadau diwylliannol wedi dangos gallu aruthrol i arloesi a dyfalbarhau wrth gyflwyno gwasanaethau gwych â chyllid cyfyngedig. Mae'r Cyngor wedi darparu ystod o gefnogaeth ariannol yn y gorffennol, a bydd hynny'n parhau trwy amrywiaeth o gynlluniau grantiau fel y Gronfa Ffyniant Cyffredin. Mae llawer o sefydliadau'n cael trafferth cyrchu cyllid o ffynonellau eraill. Bydd hyn yn derbyn sylw wrth i'r Awdurdod Lleol a chyllidwyr eraill gydweithio i ddarparu cymaint o sicrwydd tymor canolig â phosibl i grwpiau sy'n cael eu hariannu, a thrwy ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar gefnogi grwpiau i godi arian eu hunain, er enghraifft cynorthwyo gyda llywodraethiant, strategaethau codi arian, a cheisiadau am grantiau.



Mae datblygu sgiliau newydd yn dir ffrwythlon ar gyfer arloesi, ac mae presenoldeb Campws y Bae Prifysgol Abertawe yn y Fwrdeistref, a Choleg Castell-nedd Port Talbot, yn gyfleoedd allweddol i annog datblygiad busnesau newydd creadigol. Rydym ni'n gwybod bod busnesau creadigol, fel sectorau eraill, yn elwa o 'glystyrau', a byddwn ni'n ceisio datblygu mannau lle gall hynny ddigwydd. Un posibilrwydd yw y gellid defnyddio hen safle Llyfrgell Castell-nedd i gefnogi datblygiad 'ardal greadigol' yn ymyl Neuadd Gwyn, ac orielau annibynnol o amgylch Stryd y Frenhines.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot amrywiaeth anhygoel o leoliadau, ac mae llawer o ffilmiau a rhaglenni teledu eisoes yn eu defnyddio. Byddwn ni'n sefydlu swyddfa ffilmio benodol i geisio sicrhau bod y gwaith yma'n cynyddu, gan ei fod yn dod ag incwm a chyflogaeth ac yn arddangos ein hardaloedd rhyfeddol ar sgriniau mawr a bach ar draws y byd.



# Ynni ac Egni

## Yn sgîl daeareg, technoleg a menter, daeth Castell-nedd Port Talbot yn grud i'r chwyldro diwydiannol. Byddwn ni'n parhau i ddathlu diwydiannau traddodiadol a newydd yn ein cymunedau egnïol a chreadigol.

Yn sgîl llu o afonydd a'r crynodiad uchaf o raeadrau yn y Deyrnas Unedig, bu Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio pŵer gwynt a dŵr ers hydoedd i greu ynni. Castell Margam oedd yr ail adeilad domestig yn y Deyrnas Unedig, a'r cyntaf yng Nghymru, i gael goleuadau trydan, ac mae'r tŷ tyrbin bellach yn cael ei ddefnyddio eto, ar ôl adnewyddiad diweddar, gyda thyrbin dŵr yn awr yn cynhyrchu pŵer.

Heddiw, mae Castell-nedd Port Talbot yn canolbwyntio ar sut gall pŵer lle sbarduno mathau newydd o ynni. Mae gennym ni gapasiti cynhyrchu pŵer gwynt ar y lan sydd ymhlith yr uchaf o holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, ac mae Parc Ynni Baglan yn darparu cartref â ffocws ar ynni ar gyfer busnes, ymchwil, gweithgynhyrchu a gwasanaethau.

Bydd y camau hyn yn cyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn gydnerth ac yn llewyrchus, ac mae modd i'n harlwy diwylliannol gefnogi hynny. Byddwn ni'n sicrhau bod ein tirluniau a'n hadeiladau treftadaeth yn cael eu diogelu, eu hadfywio a'u datblygu'n sensitif ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn ni'n helpu ein grwpiau chwaraeon, celfyddydau a threftadaeth cymunedol niferus i bontio at sero net o ran eu hadeiladau a'u cyfleusterau. Mae gennym ni uchelgais aruthrol o ran defnyddio safleoedd diwydiannol a chyrsiau dŵr yr oes o'r blaen i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a hamdden, yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol i raglen Cymru ar gyfer gwrthweithio argyfwng yr hinsawdd.

Ar ben hynny, rydym ni'n benderfynol y bydd y chwyldro ynni glân yn arwain at allbynnau creadigol anhygoel wrth i ni harneisio egni, brwdfrydedd ac angerdd ein pobl i gynnal a thyfu ystod eang o weithgareddau, grwpiau, digwyddiadau a gwyliau diwylliannol a chwaraeon.

Daw egni Castell-nedd Port Talbot i'r amlwg yn ein traddodiad o gynnal digwyddiadau Cymreig unigryw o safon, o Ffair Castell-nedd i Ddioddefaint Port Talbot. Rydym ni'n gobeithio datblygu'r gweithgareddau hyn ymhellach gyda phartneriaid lleol a rhyngwladol, ac rydym ni'n mynd ar ôl prosiectau allweddol a fydd yn sicrhau twf yr Economi Ymwelwyr, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, ac yn arddangos yr hyn sydd gennym i'w gynnig i ymwelwyr.

# Astudiaethau Achos: Rhaeadrau Aberdulais

Mae Rhaeadrau a Gwaith Tun Aberdulais wedi bod ym mherchnogaeth a than reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers 1980. Mae'r safle ym mhen uchaf Cwm Nedd, lle mae Afon Dulais yn cwrdd ag Afon Nedd. Mae modd cyrraedd y rhaeadr odidog trwy ddilyn taith gerdded gylchol, ac mae'n lloches i fywyd gwyllt. Mae'r safle'n cynnwys amrywiaeth o adeiladau gwaith tunplat o'r 19eg ganrif; yr olwyn ddŵr fodern sy'n eistedd yn y pydew gwreiddiol yw'r olwyn ddŵr fwyaf sy'n cynhyrchu trydan yn Ewrop, ac mae'n cyflenwi pŵer i'r Grid Cenedlaethol trwy dyrbin ar y safle, gan ddarparu trydan i'r rhan fwyaf o'r gymdogaeth.

Bu arloesi'n amlwg yn Aberdulais ers i'r gwaith smeltio copr gael ei sefydlu yno gyntaf gan Ulrich Frosse yn 1584. Yn ystod y chwyldro diwydiannol, cafodd y safle ei droi'n waith tunplat oedd yn cyflenwi tun i bob rhan o'r byd. Adeiladwyd ysgol i sicrhau, er gwaethaf yr amodau gwaith caled, fod plant lleol yn cael addysg. Mae gan Aberdulais hanes artistig hir hefyd, gan fod Turner wedi creu sawl darlun a phaentiad o'r rhaeadrau a'r felin.

Wedi i'r safle gau oherwydd Covid-19, ac ailfuddsoddi sylweddol yno, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bwriadu ailagor Aberdulais yn haf 2023. Bydd rhai gwahaniaethau allweddol i ymwelwyr – yn gyntaf, bydd mynediad i'r safle ar gael am ddim am y tro cyntaf ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Yn ail, bydd llwybrau cwbl hygyrch, wedi'u huwchraddio, ar draws y safle cyfan. Yn drydydd, bydd yr Ymddiriedolaeth yn arloesi yn eu partneriaeth newydd gydag Ymddiriedolaeth St Giles, elusen genedlaethol sy'n gweithio i gefnogi partneriaeth gymunedol a chynnig cyfleoedd newydd i unigolion ailintegreiddio â chymdeithas. Bydd Ymddiriedolaeth St Giles yn defnyddio rhan o'r adeiladau ar y safle ar gyfer ystafelloedd dosbarth a rhaglenni hyfforddi.

Mae'r mentrau newydd hyn yn golygu bod modd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sicrhau bod un o safleoedd diwydiannol pwysicaf a mwyaf poblogaidd Cymru yn gweithredu mewn ffordd newydd gyda'r gymuned leol, fel bod mwy o gysylltiad, cynrychiolaeth a hygyrchedd i amrywiaeth o bobl o fewn cylch o 10 milltir, wrth iddo ddod yn gartref i raglenni elusen arall.

> **Mae Rhaeadrau a Gwaith Tun Aberdulais wedi bod ym mherchnogaeth a than reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers 1980.**

# Iechyd a Lles

**Mae ein thema Iechyd a Lles yn trafod gallu diwylliant i gadw pobl yn iach ac yn ffit, a rhoi llawenydd iddyn nhw mewn bywyd.**

Mae potensial aruthrol gan ddiwylliant i wella iechyd a llesiant pobl, a bydd ein strategaeth diwylliant yn ein helpu i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn wynebu heriau gwirioneddol o ran iechyd a llesiant, gan fod hyd oes ddisgwyliedig dynion a menywod yn is na chyfartaledd Cymru, a bod canran yr oedolion yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn wedi gostwng o 78% yn 2011 i 68% yn 2020. Mae amrywiaeth o bartneriaid yn gweithio'n galed, yn arbennig trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot, i ddod â sefydliadau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth at ei gilydd.

Fel rhan o'n Strategaeth Diwylliant, byddwn ni'n ceisio gwneud yn fawr o'n 171 milltir sgwâr o le, a sicrhau'r defnydd gorau o'n cyfleusterau ar gyfer iechyd ac ymarfer corff, boed hynny o dan do neu yn yr awyr agored. Byddwn ni'n adeiladu ar waith ardderchog Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'r buddsoddiad yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan. Fel rhan o strategaeth ehangach o annog pobl i ddefnyddio'n mannau agored gwych, bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r profiad i ymwelwyr ym Mharc Coedwig Afan, gyda'r Ymddiriedolaeth Goetir ar y coetir newydd fydd ar gael yn ymyl Parc Gwledig y Gnoll, a chyda phartneriaid ar draeth Aberafan a chamlesi Nedd, Tenant a Thawe ac o'u cwmpas.

Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid yn y sector iechyd i sicrhau bod pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, celfyddydau a threftadaeth i iechyd meddwl pobl bob amser yn cael ei ystyried.

Wrth i'n poblogaeth heneiddio bydd yn dod yn bwysicach fyth ein bod yn darparu gweithgareddau diwylliannol sy'n hygyrch i bobl ag ystod eang o anableddau. Byddwn ni'n gweithio gydag arbenigwyr i sicrhau, beth bynnag yw anghenion iechyd corff neu feddwl pobl, eu bod yn gallu cael mynediad i adeiladau, gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol.

Mae chwaraeon wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein hunaniaeth ddiwylliannol, o ffurfio Undeb Rygbi Cymru yng Ngwesty'r Castell yng Nghastell-nedd i'n timau pêl droed niferus ar lawr gwlad a'n llwybrau a'n cyfleusterau beicio mynydd, sydd ymhlith y gorau yn y byd. Byddwn ni'n adfywio'r ymwneud gweithredol a'r cysylltiad â chwaraeon, a bydd ein blaenoriaethau'n cynnwys cynyddu nifer y bobl sy'n ymuno mewn dosbarthiadau ffitrwydd, cynyddu nifer a maint ein digwyddiadau rhedeg a beicio graddfa fawr, a gwella cyfleusterau teithio llesol ar draws Castell-nedd Port Talbot er mwyn sicrhau bod cyfran uwch o deithiau'n digwydd trwy gerdded a beicio.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol ag Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Bryste ar y ffordd a'r rheilffordd, a byddwn ni'n gwneud yn fawr o gyfleoedd i rannu ein hasedau naturiol gwych ymhellach â phoblogaeth ifancach a mwy amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys Campws y Bae Prifysgol Abertawe, a datblygiad arfaethedig Wildfox i ymwelwyr yng Nghwm Afan.



Trafnidiaeth gyhoeddus oedd y pwnc a drafodwyd amlaf yn ein hymgynghoriad cyhoeddus. Mae angen i'n holl bartneriaid diwylliannol fod yn ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat ar faterion trafnidiaeth. Os yw'r Strategaeth Diwylliant i lwyddo, mae'n rhaid i drafnidiaeth i fannau a digwyddiadau diwylliannol fod yn gynaliadwy ac yn addas at y diben. Rhaid i'r rhaglenni diwylliannol fod yn sensitif i'r amgylchedd a chymunedau. Dylai groesawu ein cymunedau anabl, lleiafrifoedd ethnig, a Chymry Cymraeg, a rhaid sicrhau bod y seilwaith a'r adnoddau cywir yn eu lle. Mae ein cynllun gweithredu yn cynnwys gwneud newidiadau cymharol syml cyn gynted â phosibl (e.e. darparu arosfannau bysiau ar gyfer lleoliadau diwylliant a threftadaeth) a datblygu dulliau hirdymor o ymdrin â thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n helpu pawb i gael mynediad at ddiwylliant gwych.

Mae iechyd a llesiant meddwl lawn mor bwysig â iechyd corfforol, ac mae cyfatebiaeth gref rhwng cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a gwell iechyd meddwl. Er ei fod wedi effeithio ar bobl o bob oed, mae effaith Covid-19 ar iechyd meddwl wedi bod yn arbennig o amlwg yn achos ein pobl ifanc, a bydd eu cynnwys mewn ystod eang o weithgareddau celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth yn flaenoriaeth. Mae'r 15 mlynedd diwethaf wedi taro gwasanaethau ieuenctid yn arbennig o galed, ac er na fyddwn ni'n gallu dychwelyd i'r un nifer o gyfleusterau arbenigol i ieuenctid ag yn y gorffennol, byddwn ni'n adeiladu ar waith prosiectau fel y Plaza Newydd ym Mhort Talbot i greu mannau diwylliannol amlbwrpas i bob cenhedlaeth.

# Doniau

**Mae ein thema Doniau yn cydnabod mai ein pobl rhyfeddol yw prif ased Castell-nedd Port Talbot, a'n bod ni'n bwriadu cynyddu eu cyfleoedd, eu hyder a'u sgiliau i ddarparu cenedlaethau newydd o sêr ac arwyr diymhongar.**

Mae bron pawb yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn briodol, yn gwybod am Richard Burton, Anthony Hopkins, a Michael Sheen. Rydym ni'n gartref i ddwsinau o ddoniau enwog – o Max Boyce i Ivor Emmanuel, Rebecca Evans i Bonnie Tyler, a James Hook i Della Jones – yn ogystal â miloedd o bobl nad yw eu creadigrwydd o reidrwydd yn fyd-enwog, ond sy'n dal i ddod â llawenydd iddyn nhw, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau.

Mae doniau mawr yn haeddu cael eu meithrin yn ofalus. Byddwn ni'n helpu pawb i wneud yn fawr o'u galluoedd yn y celfyddydau, chwaraeon, crefftau a'r diwydiannau creadigol, trwy sicrhau bod sefydliadau ar draws Castell-nedd Port Talbot wedi'u paratoi'n dda i ymateb i gyfleoedd y Cwricwlwm newydd i Gymru, gyda'i bwyslais cryf ar annog ysgolion i ddefnyddio asedau, storïau a chyfleoedd lleol i helpu pobl ifanc i fod yn ddinasyddion hyderus a dysgwyr gydol oes. Byddwn ni'n annog ysgolion i ddefnyddio'n tirweddau, ein hadeiladau a'n pobl rhyfeddol i ddysgu ystod eang o hanesion sy'n bwrw goleuni ar le Castell-nedd Port Talbot yn y byd.



# Astudiaethau Achos: Gŵyl Gomedi Castell-nedd

Mae tafarn Dug Wellington yn teimlo fel lleoliad anhebygol ar gyfer clwb comedi. Mae tafarn hynaf Castell-nedd fel arfer yn croesawu roc trwm, ac mae'n teimlo'n debycach i Camden yn y 1980au na thref farchnad fach yn ne Cymru.

Mae doethineb gonfensiynol yn honni mai mewn dinasoedd neu drefi mwy yn unig mae clybiau comedi'n gweithio. Ond penderfynodd Paul James, y comedïwr o Gastell-nedd, gychwyn un yn 2009, er mai dim ond llond dwrn o weithiau roedd wedi perfformio. Denodd y Clown's Pocket Comedy Club gynulleidfaoedd sylweddol.

> **Cafodd Paul, a chomedïwyr eraill lleol oedd yn ennill eu plwyf, gyfle i berfformio yn sgîl perfformwyr o fri rhyngwladol megis Milton Jones, Jarred Christmas, a Mark Thomas.**

Erbyn 2010 roedd cynifer o gomedïwyr am ddod i'r clwb i roi rhagflas o'u sioeau ar gyfer Gŵyl Ymylol Caeredin fel nad oedd lle iddyn nhw i gyd yn y noson gomedi fisol – a ganed Gŵyl Gomedi gyntaf Castell-nedd.

O'r rhaglen wythnos gyntaf honno, mewn un lleoliad, mae'r Ŵyl Gomedi (yr un fwyaf hirhoedlog yng Nghymru bellach!) wedi datblygu'n ddigwyddiad sawl wythnos mewn sawl lleoliad, ac mae'n denu enwau mawr o fyd y teledu, rhai o sêr y gylchdaith, a pherfformwyr rhyngwladol, i gyd yn cael eu cefnogi gan artistiaid lleol. Mae'r rhaglen wedi cynnwys sioeau plant, gweithdai, sioeau Cymraeg, consurwyr, darlunwyr comigau, a dosbarthiadau sgiliau syrcas.

Mae Paul wedi cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi defnyddio'u sgiliau i ddatblygu'r ŵyl trwy helpu yn y sioeau, cynorthwyo i lunio'r llyfrynnau, dosbarthu taflenni, a chynnig lletygarwch i gomedïwyr o bob man. Mae'r ŵyl wedi cynnwys perfformiadau gan gymunedau a dangynrychiolir mewn rhaglen ddiwylliannol amrywiol, ac yn wahanol i lawer o wyliau comedi eraill, mae'n destun balchder bod pob artist yn cael tâl am berfformio yng Nghastell-nedd.

Gan fod mynychwyr rheolaidd a newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn, mae'r ŵyl yn datblygu cymuned wych, ac mae cyfleoedd rhyfeddol iddi barhau i dyfu a denu'r cymorth angenrheidiol i gyrraedd y lefel nesaf.

Mae modd datblygu a thyfu sgiliau ar unrhyw oed, a byddwn ni'n annog sefydliadau diwylliannol i gydweithio'n agos â'n Coleg a'n Prifysgol i sicrhau bod pobl o bob oed yn meddu ar sgiliau sy'n cyfateb i swyddi'r dyfodol. Bydd llawer o'n prosiectau cyfalaf mwyaf yn cynnwys adfer asedau treftadaeth o'r chwyldro diwydiannol a chyn hynny. Fodd bynnag, mae prinder cenedlaethol o'r sgiliau crefftau treftadaeth (megis seiri maen a seiri), y bydd arnom eu hangen i gyflawni ein huchelgais, yn ogystal â gweithwyr treftadaeth proffesiynol ym meysydd curadu, cadwraeth, arddangosfeydd ac addysg. Byddwn ni'n gweithio gyda CHART (Canolfan Treftadaeth, Ymchwil a Hyfforddiant) Prifysgol Abertawe i'n helpu i ddatblygu dull mwy cydlynus o ymdrin â threftadaeth a sgiliau treftadaeth.

Mae llawer o'n doniau 'o'r golwg' – bandiau yn y garej, pobl yn ymarfer comedi o flaen teulu a ffrindiau, a byddin o arlunwyr, crefftwyr, llunwyr modelau, argraffwyr a mwy. Ein huchelgais yw helpu unrhyw un sydd am ddatblygu eu dawn neu droi'r ddawn honno yn yrfa neu'n fusnes, fel eu bod yn cael y cyfleoedd cywir. Byddwn ni'n gwneud hynny trwy gyflwyno lleoliadau cymunedol a mannau cyhoeddus fforddiadwy, o safon uchel, gweithio'n galed i gadw costau mynediad at chwaraeon, y celfyddydau a threftadaeth yn isel, a thargedu cefnogaeth i sicrhau bod y rhai lleiaf abl i dalu yn dal i fedru cymryd rhan. Byddwn ni'n cefnogi hunanliwtwyr a micro-fusnesau i gychwyn a thyfu, ac yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn gallu cael cymorth i godi arian. Ein nod fydd creu diwylliant dyngarol, ac annog unigolion a chwmnïau i gyfrannu'n hael fel bod pawb yn gallu defnyddio'u doniau.

Mae llwyddiant llawer o'r grwpiau theatr, dawns, celfyddydau gweledol, treftadaeth a chwaraeon sy'n meithrin cynifer o ddoniau ar draws Castell-nedd Port Talbot yn dibynnu cymaint ar ewyllys da cannoedd o wirfoddolwyr sy'n gwasanaethu fel ymddiriedolwyr, yn cynnal adeiladau, yn dysgu dosbarthiadau, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau. Rydym am wneud ein hardal yn lle gwych i wirfoddoli ynddo, a chynnal yr ysbryd rhyfeddol hwn sy'n golygu bod cynifer yn rhoi cymaint yn ôl i'w cymunedau.



**Ein huchelgais yw helpu unrhyw un sydd am ddatblygu eu dawn neu droi'r ddawn honno yn yrfa neu'n fusnes, fel eu bod yn cael y cyfleoedd cywir.**

# Astudiaethau Achos: Canolfan Treftadaeth ac Ymwelwyr Pontardawe

Llwyddwyd i wireddu awydd hirsefydlog am Ganolfan Treftadaeth ac Ymwelwyr ym Mhontardawe yn 2017, pan oedd y Cyngor Tref yn bwriadu ildio prydles yr hen Stablau yn Stryd Herbert. Daeth grŵp bach o wirfoddolwyr ynghyd i archwilio'r syniad o sefydlu canolfan. Roedd yr Hen Stablau yn ofod delfrydol, gyda hanes hir o ddefnydd gan y gymuned leol fel llyfrgell a chanolfan hyfforddi ieuenctid, a chysylltiad treftadaeth â'r gamlas trwy fod yn stablau gynt.

Pan symudodd y clwb ieuenctid a fu'n defnyddio'r ganolfan i safle yn Ynysmeudwy daeth posibilrwydd o weld y lle fel gofod a neilltuwyd ar gyfer treftadaeth Pontardawe, a chyda chefnogaeth gref gan y gymuned, sefydlwyd corff oedd yn gallu derbyn cyfrifoldeb am y brydles.

Y cynllun busnes o ran talu am orbenion oedd codi arian trwy rentu lle, gwerthu eitemau o dderbynfa, gwerthu aelodaeth yn y ganolfan, a chynnal digwyddiadau. Agorodd y Ganolfan yn raddol, gyda chynllun lle roedd y siop/dderbynfa ac ystafell arddangos llai o faint yn agor gyntaf. Mae'r brif neuadd mwy o faint yn dal i gael ei datblygu, ond mae sawl grŵp eisoes yn ei defnyddio, gan gynnwys grŵp seryddiaeth, grŵp gwnïo, boreau coffi gan y Lleng Frenhinol Brydeinig, a chynhaliwyd nifer o berfformiadau hanesyddol, cyflwyniadau a sgyrsiau yno.

Mae pwyllgor gweithgar o wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn trefnu gweithgareddau ac yn rheoli'r adeilad, a chafwyd cyngor a chefnogaeth gan y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol a'r Cyngor. Mae pwyslais y Ganolfan Treftadaeth ac Ymwelwyr yn bendant ar greu lleoliad sy'n gynaliadwy yn fasnachol. Ers Covid-19 mae'r Ganolfan wedi mynd o nerth i nerth, ac wedi bod yn brysurach nag erioed, gyda marchnadoedd crefftau lleol bob mis, a rhai arddangosfeydd poblogaidd iawn.

Mae elusen Canolfan Treftadaeth ac Ymwelwyr Pontardawe yn gobeithio parhau i ddatblygu'r adeilad, gan ddod yn fwy o gyrchfan i dwristiaid ac amwynder lleol, ac mae cynlluniau i greu hyd at bedair siop fyrdymor/uned fanwerthu ar gyfer crefftwyr artisan lleol, yn null blaen siopau Pontardawe gynt.

Llafur cariad a welir yn y Ganolfan, gan fod llawer o oriau gwirfoddolwyr yn cael eu cyfrannu i gynnal treftadaeth gyfoethog yr ardal – mae'n dangos pŵer balchder pobl yn eu hardal.

# Calon Gymreig

**Ers miloedd o flynyddoedd, Castell-nedd Port Talbot yw Calon Ddramatig Cymru. Mae ein treftadaeth Gymreig yn bwysig i'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg, ac mae gwreiddiau dwfn i'n stori, sy'n adlewyrchu hanes ehangach Cymru mewn modd mor gain.**


Bron 2,000 flynedd yn ôl, dewisodd y Rhufeiniaid safle ger Castell-nedd ar gyfer caer roedden nhw'n ei galw'n Nidum, canolfan i amddiffyn y ffordd roedden nhw wedi'i hadeiladu o Gaerloyw i Gaerfyrddin. Fil o flynyddoedd yn ddiweddarach adeiladodd Robert, Iarll Caerloyw, Gastell Nedd. Sylfaenwyd Mynachlog Nedd yn y 12fed Ganrif, ac fe'i disgrifiwyd yn yr 16eg ganrif fel "yr abaty harddaf yng Nghymru gyfan". Erbyn y 1700oedd, roedd ei thiroedd wedi dod yn waith smeltio copr, a daeth yn ddiweddarach yn waith haearn. Yn ddiweddar mae gwaith wedi cael ei wneud, wedi'i gynllunio neu ar y gweill i wella mynediad cyhoeddus, cyfleusterau neu ddehongli ar yr holl safleoedd hyn.

Daeth ein tir amaethyddol cyfoethog â ffyniant i Gastell-nedd Port Talbot hyd yn oed cyn i ni gyflawni rôl allweddol yn y chwyldro diwydiannol. Mae ein pyllau glo, ein gwaith haearn, ein smeltwyr copr, ein gweithfeydd tunplat, ein camlesi, ein dociau a'n rheilffyrdd yn adrodd hanes cyfraniad Cymru i un o chwyldroadau mwyaf hanes. Heddiw, mae gwaith dur Port Talbot a Pharc Ynni Baglan yn dal i ddangos sut mae Castell-nedd Port Talbot yn cyfrannu at ddiwydiant Cymru yn y cyfnod modern.

Mae'r arlwy amrywiol sydd gennym o ran diwylliant Cymru yn cynnwys y gair llafar, digwyddiadau, perfformiadau, ac arddangosfeydd o gelf stryd o safon uchel. Mae diwylliant Cymru yn rheolaidd yn ganolog i waith ein sefydliadau, megis dramâu a ffilmiau Cymraeg yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, sesiynau Twmpath gyda'r Urdd yng Nghastell Margam, lle gall y teulu cyfan ddysgu dawnsiau Cymreig traddodiadol, a sioeau a gweithgareddau Cymraeg i blant mewn cydweithrediad â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Bydd ein Strategaeth Diwylliant yn adeiladu ar y sylfeini hyn i hyrwyddo'r Gymraeg a gwneud diwylliant Cymru yn hygyrch, yn weladwy ac yn berthnasol.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a bywyd beunyddiol Cymru, ac mae'n rhan allweddol o'r hunaniaeth a rennir gan genedl y Cymry. Nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru yw sicrhau "miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050." Mae gan Gastell-nedd Port Talbot rai siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal, gyda'r nifer uchaf ym mhen uchaf Dyffryn Aman. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi gostwng rhywfaint yn ystod y degawd diwethaf (13.5% yn 2021) mae gan y Cyngor 'Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028' a 'Chynllun ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg 2022-32' sy'n ceisio hybu defnydd o'r Gymraeg gan blant ac oedolion.

Cymraeg



Rydym ni'n cydnabod pa mor bwysig i'n trigolion yw ein sefydliadau a'n digwyddiadau diwylliannol a chreadigol unigryw Cymreig ar lawr gwlad, sy'n cefnogi ac yn datblygu doniau lleol, yn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol, ac yn dathlu cymunedau. Daeth pwysigrwydd llwyddiannau Castell-nedd Port Talbot ym myd actio a chwaraeon, a balchder yn hynny, i'r amlwg yn glir yn yr ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth hon. Byddwn ni'n gwneud mwy o ddefnydd creadigol a diwylliannol o fannau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli i annog cyfranogiad, cynyddu mynediad, a hybu diwylliant a iaith Gymraeg hyfyw, gan gynnwys gosodiadau celf gyhoeddus, ac arwyddion y tu mewn a'r tu allan i leoliadau diwylliannol sydd eisoes yn bodoli a datblygiadau newydd dinesig a masnachol.

Byddwn ni'n parhau i fywiogi arlwy diwylliannol Cymreig Castell-nedd Port Talbot â hanesion cyfoes sy'n taro tant ac yn creu cysylltiad â'n pobl heddiw. Byddwn yn gwneud defnydd neilltuol o arwyddion a dehongli i helpu pawb o'n trigolion i deimlo bod iaith a diwylliant Cymru'n bwysig iddyn nhw, ac er mwyn i bob ymwelydd deimlo eu bod wedi ymweld â rhywle sydd â hunaniaeth falch, unigryw.

> **Byddwn ni'n gwneud mwy o ddefnydd creadigol a diwylliannol o fannau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli i annog cyfranogiad, cynyddu mynediad, a hybu diwylliant a iaith Gymraeg hyfyw.**



# Beth Nesaf

# 08

# 08. Beth Nesaf

**Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn galw am arweiniad cadarn, llywodraethu da, a chydweithio manwl gan unigolion a sefydliadau ar draws Castell-nedd Port Talbot a'r tu hwnt. Bydd angen hefyd i'w blaenoriaethau a'i dull gweithredu gyflawni rhai o amcanion y Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd a strategaethau'r Dreftadaeth Adeiledig.**

Bydd y cyflawni'n digwydd trwy gyfrwng y mudiadau celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth sydd gyda'i gilydd yn creu'r 'sector diwylliannol', a hefyd ei grwpiau cymunedol ehangach, ei fusnesau, ei ddarparwyr addysg, a'i gyrff cyhoeddus, y mae gan bob un ohonynt rôl i'w chwarae wrth ddatblygu a hyrwyddo diwylliant ar draws y fwrdeistref sirol, a manteision i'w hennill wrth wneud hynny.

I gefnogi hyn, ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth hon byddwn ni'n sefydlu Partneriaeth Diwylliant ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Mewn mannau eraill mae partneriaethau o'r fath yn dod ag awdurdodau lleol, busnesau, darparwyr addysg ac arweinwyr diwylliannol a chymunedol at ei gilydd, trwy uchelgais a rennir yng nghyswllt diwylliant a lle, i gyd-greu a chyflawni gweledigaeth ar gyfer diwylliant mewn man penodol.

Daw aelodau'r bartneriaeth o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys cadeirydd addas a chefnogaeth weinyddol. Bydd yr aelodau cychwynnol yn cael eu penodi'n uniongyrchol i feithrin momentwm a wneud cynnydd cyflym. Ychwanegir at hynny dros amser trwy recriwtio aelodau pellach i roi sylw i fylchau sgiliau a gwybodaeth, a chryfhau capasiti, rhwydweithiau a chwmpas. Bydd yn hanfodol sicrhau bod yr aelodau'n adlewyrchu amrywiaeth Castell-nedd Port Talbot. Ar ôl ei sefydlu, bydd y Compact hwn yn gyfrifol am sbarduno cyflawni'r Strategaeth Diwylliant, ac adrodd am ei llwyddiant. Bydd yn cwrdd yn rheolaidd, gyda chylch gorchwyl clir a chynllun gweithredu cytunedig, a bydd yn gweithio ar y cyd i gefnogi amcanion a blaenoriaethau a rennir.

Mae gan bob person a phob sefydliad yng Nghastell-nedd Port Talbot ran i'w chwarae wrth gyflawni'n Strategaeth Diwylliant. Bydd y Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn hyn, oherwydd ei fod yn berchennog llawer o asedau diwylliannol, ac yn bŵer sy'n cynnull, yn cydlynu ac yn arwain. Bydd pob person a sefydliad yn cael eu grymuso i chwarae eu rhan eu hunain.

Cefnogir y Strategaeth Diwylliant gan Gynllun Gweithredu sy'n cyflwyno dros hanner cant o gamau i'r Cyngor a'i bartneriaid eu cymryd yn ystod y cyfnod 2024 i 2026, i wireddu ein huchelgais ddiwylliannol. Wedi 2026 bydd cynllun gweithredu newydd yn cael ei guradu.



# Mesur ein Llwyddiant

# 09

# 09. Mesur ein Llwyddiant

**I fesur llwyddiant, mae angen i ni wybod beth yw natur y llwyddiant hwnnw. Un agwedd allweddol ar hynny fydd cyflawni'r Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, er mwyn cyrchu at y nod o gyflawni ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer diwylliant yng Nghastell-nedd Port Talbot, un o flaenoriaethau cychwynnol y Bartneriaeth Diwylliant fydd datblygu "fframwaith gwireddu manteision" sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth strategol, y nodau a'r cynllun gweithredu. Bydd hynny'n nodi'r canlynol:**

- **Y manteision arfaethedig** a'r **buddiolwyr** fydd yn elwa ohonynt yn bennaf, gan gynnwys deilliannau cadarnhaol i sefydliadau a thrigolion unigol, yn ogystal ag effeithiau economaidd mesuradwy ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn ei grynswth.
- **Terfynau amser disgwyliedig** ar gyfer datblygu'r manteision hyn.
- **Dangosyddion** sy'n amlygu a wireddwyd y fantais.
- **Methodoleg** ar gyfer casglu a gwerthuso dangosyddion mantais. Bydd y rhain yn amrywio o ymarferiadau syml i gasglu'r deilliannau uniongyrchol i unigolion (e.e. arolygon cynulleidfa, arolygon rhanddeiliaid, ffurflenni adborth ymwelwyr) i ymarferiadau mwy cymhleth i asesu effeithiau hirdymor cronnol (e.e. dadansoddi data economaidd).





# Cynllun Gweithredu

# 10

# Cynllun Gweithredu

Nod y cynllun gweithredu hwn yw sicrhau cydweithio a phartneriaethau sy'n ein galluogi i wneud yn fawr o'r holl asedau diwylliannol unigryw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n nodi sut bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau, grwpiau cymunedol a thrigolion i helpu i gyflawni ein gweledigaeth a rennir, sef sicrhau arlwy cryf, llewyrchus o ran y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant, sydd o fudd i drigolion unigol ac ymwelwyr, eu teuluoedd, a'n cymunedau ehangach, yn ogystal â chyfrannu at hyfywedd ein trefi, ein pentrefi a'n hardaloedd gwledig.

Yn ein barn ni, dim ond trwy gydweithio'n agos â phartneriaid ac ar draws sectorau y gallwn ni'n wir fywiogi ein cymunedau, sicrhau bod ein heconomi yn tyfu, gwella ein sgiliau, codi lefel dyheadau, a chefnogi trigolion i fyw bywydau iach a hapus.

Mae'r tablau isod yn nodi'r camau gweithredu allweddol y mae angen i'r cyngor a sefydliadau eraill sydd wedi eu lleoli neu'n gweithio yn y fwrdeistref eu cymryd i roi'r Strategaeth Diwylliant ar waith. Mae'r tablau'n cynnwys y cyfnod hyd at 2025, ac yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer gweithredu pellach, a gellir addasu neu newid hynny yn ôl yr hyn sy'n cael ei gyflawni ym mlynyddoedd 1 a 2. Yr argymhelliad yw bod y Cynllun Gweithredu'n cael ei adnewyddu bob blwyddyn, fel bod gennym bob amser gynllun manwl ar gyfer dwy flynedd, a braslun o'n gobeithion ar gyfer blynyddoedd pellach.

Mae ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot gyfan yn uchelgeisiol, sy'n golygu na fydd unrhyw sefydliad unigol yn gallu cyflawni'r cyfan. Yn arbennig ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae mwy o feysydd lle bydd y Cyngor yn arwain, gan ddefnyddio'i allu i gynnull a chydlynu i greu'r fframweithiau polisi a llywodraethiant cywir, ond mae llawer o elfennau lle mae'r arbenigedd yn nwylo ein partneriaid, a'r rheiny'n gymeriadau mawr a mân ar lwyfan diwylliant.

# 10. Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant

**10.1** Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn rhestru'r pethau allweddol mae angen iddyn nhw ddigwydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer diwylliant bywiog sy'n ffynnu ar draws Castell-nedd Port Talbot. Y bwriad yw ei bod yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i gamau gweithredu gael eu cyflawni. Dylai'r Bartneriaeth Diwylliant sicrhau ei bod yn cael ei hadolygu'n flynyddol, er mwyn sicrhau bod blaengynllun dwy flynedd manwl ar gael bob amser. Arweinir llawer o'r camau gweithredu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, fel corff cynnull allweddol, ond mae digon o gyfle i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, ac i fusnesau a'r sector gwirfoddol, gyfrannu at sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni a bod diwylliant yn ffynnu.

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 1 | Arloesi | Sefydlu Partneriaeth Diwylliant i hwyluso gweithrediad y Strategaeth Diwylliant a'i datblygiad i'r dyfodol. | Cyngor CNPT | • Cyfarfod cyntaf y partneriaid (Ch4 2023).<br>• Recriwtio cadeirydd annibynnol (Ch1 2024).<br>• Y Bartneriaeth yn perchnogi'r Strategaeth Diwylliant (Ch1 2024).<br>• Gwreiddio diwylliant Cymru mewn llywodraethiant lefel uchel.<br>• Adolygiad/diwygiad blynyddol cyntaf y Cynllun Gweithredu (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 2 | Arloesi | Cytuno ar flaenoriaethau ar draws y Bartneriaeth Diwylliant o ran prif brosiectau cyfalaf diwylliannol, yn unol â'r Strategaeth Diwylliant, a chyfleu'r blaenoriaethau hyn i gyllidwyr pwysig (e.e. Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, CADW). | Y Bartneriaeth Diwylliant a Chyngor CNPT gyda mewnbwn gan bartneriaid arbenigol (e.e. CADW, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) | • Coladu rhestr fanwl o brosiectau buddsoddi pwysig posibl (Ch4 2023).<br>• Datblygu meini prawf a phwysiad ar gyfer sgorio (Ch1 2024).<br>• Aelodau'r Bartneriaeth Diwylliant yn sgorio prosiectau i ddarparu rhestr yn eu trefn (Ch2 2024).<br>• Sicrhau bod iaith a diwylliant Cymru wedi'u gwreiddio'n llawn.<br>• Dechrau rhoi Cam Gweithredu 02 ar waith (Ch3 2024). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 3 | Iechyd a Lles | Sicrhau bod gennym ni'r cyfleusterau cywir ar gael yn y mannau cywir i alluogi cynnydd cyffredinol yng ngweithgarwch corfforol trigolion, yn enwedig y rhai lleiaf actif. | Cyngor CNPT | • Comisiynu Asesiad Anghenion o ran Cyfleusterau Chwaraeon a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth er mwyn nodi'r angen a'r galw am gyfleusterau chwaraeon yn awr ac i'r dyfodol (cwmpas i'w gadarnhau). (Ch2 2024). Bydd hyn yn pennu beth yw anghenion CNPT o ran cyfleusterau chwaraeon. Bydd yn dadansoddi data cyflenwad a galw er mwyn penderfynu a oes cyfleusterau digonol yn yr ardal (mae hefyd yn nodi bylchau a chyflenwad gormodol) ac yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu gweithgarwch corfforol. Sbardun allweddol ar gyfer yr adroddiad a her barhaus i CNPT yw sicrhau bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgaredd corfforol lle gall sicrhau mynediad fod yn heriol (e.e. trwy gydleoli). Asesiad (Ch3, 2024) ac adroddiad ar gynllun gweithredu'r Strategaeth i'w cwblhau (Ch4 2024 yn amodol ar gyllideb, dyddiad comisiynu a chwmpas). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Iechyd a Lles | Cynnal adolygiad o'r prisiau parcio ceir ar draws gwahanol leoliadau hamdden (e.e. Margam, Traeth Aberafan, y Gnoll), gyda golwg ar sicrhau cysondeb, hygyrchedd, ac yn unol â blaenoriaethu trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Archwilio'r posibiliadau o ran creu cynigion "pecyn" i drigolion CNPT, sy'n cynnwys safleoedd canolfannau hamdden. | Cyngor CNPT | • Penderfynu ar gwmpas yr adolygiad (Ch2 2024).<br>• Cwblhau'r adolygiad (Ch3 2024).<br>• Rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith (o Ch4 2024). |
| 5 | Arloesi | Adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ym Mharc Margam i ddatblygu cynnig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda phrosiect uchelgeisiol sy'n cydnabod arwyddocâd hanesyddol aruthrol y tŷ a'r tiroedd o'i amgylch. | Cyngor CNPT | • Datblygu amserlen ar gyfer prosiect sylweddol (Ch4 2023) i gynnwys prosiectau interim ar raddfa lai a gwaith cynnal a chadw hanfodol.<br>• Dechrau rhoi'r strategaeth interim ar waith (Ch1 2024).<br>• Dyddiad cyflwyno dros dro ar gyfer cynnig sylweddol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NHLF) (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu’r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy’n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 6 | Arloesi | Adolygu’r gefnogaeth mae’r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol a rhannau eraill o Gyngor CNPT a chyrff cefnogi’r sector yn ei chynnig i grwpiau celfyddydau, chwaraeon a diwylliant, gyda golwg ar gyfeirio sefydliadau ymlaen at y ffynhonnell fwyaf effeithiol o gefnogaeth. Lle bo modd, cyfeirio ymlaen at gefnogaeth sydd eisoes yn cael ei hariannu, er mwyn gallu defnyddio adnoddau’r Awdurdod Lleol i ganolbwyntio ar lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Mae gwefan y CGG yn darparu ystod eang o adnoddau — adolygu’r rhain i sicrhau eu bod yn gyfredol, llenwi unrhyw fylchau, a sicrhau bod grwpiau ac unigolion yn gwybod mai dyma’r lle i droi. | Cyngor CNPT, y CGG | • Adolygu’r adnoddau presennol i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn berthnasol, ac i nodi unrhyw fylchau (e.e. datblygu incwm masnachu neu fasnachol) (Ch1 2024).<br>• Datblygu ymgyrch gyfathrebu i sicrhau bod yr holl sefydliadau perthnasol yn gwybod am fanteision ymuno â’r CGG (Ch2 2024).<br>• Adolygu unrhyw adnoddau sydd wedi dyddio a darparu adnoddau ychwanegol a nodwyd yn yr ymarferiad adolygu, gyda phwyslais ar gyfeirio ymlaen at adnoddau allanol o safon uchel yn hytrach na chreu rhai newydd (Ch3 2024). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 7 | Arloesi | Datblygu strategaeth ddehongli integredig (gan gynnwys llwybrau 'yn ôl eu traed' sydd eisoes yn bodoli, placiau newydd a gwefan ddiwygiedig) ar gyfer adnoddau hanesyddol allweddol CNPT, gan adolygu eu perthnasedd o ran arloesi a tharddiad cyfoeth hanesyddol, ac adrodd hanesion gwirioneddol am leoedd a phobl yn Gymraeg a Saesneg (trwy gasgliadau digidol ac adnoddau archif). | Cyngor CNPT | • Cytuno ar arweiniad o ran y staff ac amserlen (Ch2 2024).<br>• Diwygio'r wefan a datblygu cais ar gyfer unrhyw offer pellach (e.e. placiau) Ch2 2024. |
| 8 | Arloesi | Sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu creu ar y cyd â chymunedau lleol, gan ddatblygu arloesedd a doniau yn unol â Chwricwlwm Cymru, cynlluniau mynediad at Lyfrgelloedd ac Archifau, ac ystod o fentrau cymunedol. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Ymgynghori â grwpiau treftadaeth lleol, ysgolion ac Archifau Gorllewin Morgannwg trwy sianeli sydd eisoes yn bodoli i gadarnhau hanesion a safleoedd sy'n flaenoriaeth, yn ogystal â sut mae hyrwyddo Llwybrau Calon Cymru sydd eisoes yn bodoli ymhlith cynulleidfaoedd lleol (Ch1 2024). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 9 | Arloesi | Sefydlu swyddfa ffilmiau newydd yng Nghyngor CNPT a denu mwy o gynyrchiadau i ffilmio yn y fwrdeistref. Ystyried sefydlu cronfa gynhyrchu (cyfranddaliadau ecwiti mewn cynyrchiadau penodol). | Cyngor CNPT | • Cytuno ar ddatblygiad swyddfa ffilmiau (Ch4 2024).<br>• Recriwtio staff a sefydlu (Ch2 2025).<br>• Sefydlu'r swyddfa ffilmiau (Ch3 2025). |
| 10 | Arloesi | Rhoi grantiau o'r Cronfeydd Ffyniant Cyffredin sy'n annog arloesi ar draws y sector diwylliannol a'r economi ymwelwyr. | Cyngor CNPT | • Yr holl grantiau SPF o'r cylch cyfredol wedi'u dosbarthu a'u gwario. |
| 11 | Arloesi | Datblygu a chyflwyno digwyddiad newydd pwysig, ar raddfa fawr, i CNPT, y mae trigolion yn ei groesawu, sy'n denu ymwelwyr am y diwrnod a thros nos, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi leol. | Cyngor CNPT a'i bartneriaid | • Datblygu syniadau ar gyfer digwyddiadau posibl a dewis opsiwn a ffafrir (Ch3 2023).<br>• Codi arian a chynllunio (Ch4 2023).<br>• Penderfyniad wedi'i wneud a datblygu cyhoeddusrwydd (Ch1 2024).<br>• Cynnal y digwyddiad (Ch3 2024). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Arloesi | Datblygu a chyflwyno o leiaf un comisiwn pwysig o ran celfyddyd gyhoeddus ar gyfer lleoliad sy'n cael ei dangynrychioli yn arlwy celfyddyd gyhoeddus presennol y fwrdeistref, mewn man y mae nifer dda o bobl yn mynd heibio iddo. Dylai'r prosiect gynnwys elfen o ddatblygu sgiliau a chyd-greu cadarn gyda grwpiau cymunedol perthnasol. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Archwilio lleoliadau posibl ac adrodd arnyn nhw (Ch4 2024).<br>• Penderfynu ar leoliad a ffafrir (Ch1 2025).<br>• Dylunio a chodi arian (Ch3 2025).<br>• Gosod a dadorchuddio (Ch3 2026). |
| 13 | Ynni ac Egni | Gan adeiladu ar lwyddiant Rhodfa Gelf Port Talbot a Thrywydd Richard Burton, cynhyrchu rhestr o osodiadau celf gyhoeddus allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Sicrhau bod y rhestr a'r lleoliadau ar gael ar wefan y Cyngor ac ar dudalen Wikipedia. Creu llwybr celf cyhoeddus — i gynnwys elfennau o'r Rhodfa Gelf, ond hefyd ystod a daearyddiaeth ehangach o ran celfyddyd gyhoeddus. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Ymarferiad mapio, diweddaru'r wefan a'r dudalen Wikipedia (Ch4 2024).<br>• Creu a lansio'r llwybr (Ch2 2025).<br>• Datblygu polisi Celf Stryd i sicrhau bod gwaith o safon uchel yn cael eu hyrwyddo, gan adeiladu ar yr elfen arbennig hon o ddiwylliant Port Talbot (a'r fwrdeistref ehangach) (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 14 | Ynni ac Egni | Paratoi Cynllun Datblygu'r Celfyddydau i gydlynu a blaenoriaethu rhaglen o fuddsoddi yn y celfyddydau perfformio a gweledol. | Cyngor CNPT, Cyngor Celfyddydau Cymru | • Diffinio cwmpas y sefydliadau celfyddydau y mae Cyngor CNPT o'r farn y dylai eu hariannu yn ôl blaenoriaethau'r Strategaeth Diwylliant (Ch3 2024).<br>• Gweithio gyda grwpiau celfyddydau allweddol i'w paratoi i ymgeisio am statws Portffolio Cyngor y Celfyddydau ar y cyfle nesaf priodol (Ch1 2025) gyda chyllid lleol/CNPT cytunedig yn ei le i gefnogi'r cynigion hynny. |
| 15 | Ynni ac Egni | Adolygu llwyddiant model gweithredu newydd Rhaeadrau Aberdulais, gyda golwg ar ddysgu gwersi ar gyfer safleoedd eraill ar draws CNPT. | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor CNPT | • Adolygu'r data a gafwyd wedi 12 mis o agor yn y fformat newydd (Ch2 2025). |
| 16 | Ynni ac Egni | Cefnogi ac integreiddio cynlluniau CADW i wella'r cyfleusterau ym Mynachlog Nedd, gan gynnwys canolfan ymwelwyr a dehongli, a datblygu cynlluniau ar gyfer Gwaith Haearn Mynachlog Nedd (parcio, dehongli, toiledau). Rhoi cyhoeddusrwydd i'r arlwy newydd, gwell. | CADW, Cyngor CNPT, Grŵp Cyfeillion | • Gwelliannau cychwynnol i'w cwblhau erbyn Ch4 2025. |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Ynni ac Egni | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ailachredu casgliadau amgueddfeydd CNPT, gan gyflawni'r ymrwymiadau o ran gofal a chadwraeth, yn ogystal â darparu ystod o gyfleoedd i'w harddangos yn gyhoeddus (gweler hefyd Gam Gweithredu 19). | Cyngor CNPT, Llywodraeth Cymru | • Canlyniad cais i gronfa'r SPF ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb (Ch3 2023).<br>• Opsiynau wedi'u hasesu a phenderfyniad ar y camau nesaf (Ch1 2024).<br>• Cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NHLF) am gyllid i gynorthwyo gydag ailachredu (Ch2 2024).<br>• Mae'r cais am ailachredu yn gofyn bod casgliadau'n cael eu harddangos erbyn Ch4 2026. |
| 18 | Ynni ac Egni | Ymchwilio i ddichonoldeb Hen Lyfrgell Castell-nedd fel lle ar gyfer gwaith creadigol (gan gynnwys o bosibl lle i weithio ar y cyd, lle i wneuthurwyr, a lle i stiwdios) gyda chyfleusterau arddangos ar raddfa fach, o bosibl mewn partneriaeth â darparwr addysg neu drydydd sector. Gallai hynny sbarduno datblygiad ardal greadigol, gyda dull gweithredu cydlynus rhwng Polisi Cynllunio, Cynllunio, Datblygu Economaidd, y Celfyddydau a datblygwyr. | Cyngor CNPT a phartneriaid o'r sector creadigol | • Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb, gan gynnwys edrych ar gyfleoedd ehangach i'r ardal o amgylch y llyfrgell (Ch4 2023).<br>• Adroddiad o'r astudiaeth ddichonolrwydd. Os yw'n gadarnhaol, comisiynu asesiad cost cyfalaf ac Achos Busnes (Ch1 2024).<br>• Chwilio am bartner gweithredol (Ch3 2024). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 19 | Ynni ac Egni | Defnyddio ystod eang o leoedd mewn mannau ar draws y Fwrdeistref i arddangos casgliadau celf ac arteffactau'r Cyngor (ac eraill) dros dro. Dylai hyn gynnwys lleoliadau a ddefnyddiwyd yn flaenorol (e.e., Sefydliad y Mecanyddion) a rhai newydd (e.e., llyfrgell newydd Castell-nedd, canolfan ymwelwyr newydd y Gnoll). | Cyngor CNPT ac ystod o bartneriaid lleoliadau | • Nodi ystod o leoliadau posibl a themâu ar gyfer arddangosfeydd yn ystod y cyfnod 2024-2026 (Ch1 2024).<br>• Rhoi rhaglen tymor byr ar waith mewn lleoliadau "hawdd" sy'n eiddo i'r Cyngor (e.e., Llyfrgell Castell-nedd) (Ch3 2024).<br>• Cynhyrchu a chyflwyno rhaglen lawn mewn amrywiaeth o leoliadau (Ch1 2026). |
| 20 | Ynni ac Egni | Sicrhau bod blaenoriaethau'r Strategaeth Diwylliant yn cefnogi cynllun Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot a bod modd i artistiaid fod yn rhan o agenda newid hinsawdd y Cyngor. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Cychwyn digwyddiad bord gron ar gyfer cyrff yn y sector diwylliant ar y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio (Ch2 2024) — efallai fel rhan o ddiwrnod cynhadledd i'r sector diwylliant ehangach.<br>• Cynnwys ystyriaeth o beth gall artistiaid a phobl greadigol ei gynnig yn yr holl negeseuon am argyfwng yr hinsawdd y mae Cyngor CNPT yn eu cyfleu (Ch3 2024). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 21 | Ynni ac Egni | Sicrhau bod sefydliadau sy'n gyfrifol am leoliadau (gan gynnwys neuaddau cymuned a llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon, meysydd chwarae a busnesau creadigol) yn cael eu cefnogi yn eu hymdrechion i leihau allyriadau carbon. Yn arbennig, bydd darparu cymorth cyfnod cynnar gydag arolygon, asesiadau anghenion a chyfeirio ymlaen at gyfleoedd ariannu yn flaenoriaeth. Gallai datblygu mecanweithiau ariannu newydd i dalu am fesurau arbed ynni (e.e. benthyciadau i grwpiau cymunedol gyda'r ad-daliadau'n cael eu hariannu trwy arbedion ar filiau) gynnig effeithiau cyflym. | Cyngor CNPT gyda Chwaraeon Cymru a'r Bartneriaeth Diwylliant | • Datblygu dealltwriaeth glir o anghenion sefydliadau perthnasol yn y maes hwn (Ch2 2025).<br>• Dechrau cyflwyno cefnogaeth i sefydliadau leihau carbon trwy amrywiaeth o fecanweithiau ariannu (Ch3 2026).<br>• Bydd cefnogaeth gynnar, gan gynnwys arolygon natur, asesiadau anghenion a chyfeirio ymlaen at gyfleoedd cyllido yn flaenoriaeth. |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 22 | Ynni ac Egni | Gall digideiddio roi bywyd newydd i gasgliadau. Bydd digideiddio eitemau allweddol o gasgliadau amgueddfeydd Castell-nedd Port Talbot yn golygu bod modd eu defnyddio'n rhagweithiol i animeiddio lleoedd ac adrodd hanesion lleol (yn Gymraeg a Saesneg) i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd mewn ffyrdd cyffrous sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. | Cyngor CNPT | • Datblygu amserlen fel rhan o'r gwaith ailachredu. |
| 23 | Ynni ac Egni | Croesawu Eisteddfod yr Urdd yn haf 2025. | Urdd Gobaith Cymru, Cyngor CNPT | • Gweithio tuag at ddyddiad y digwyddiad, sef 26-31 Mai 2025. |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 24 | Ynni ac Egni | Datblygu calendr digwyddiadau sy'n defnyddio ein mannau agored gwych ar gyfer digwyddiadau o wahanol faint, gyda ffocws arbennig ar ddigwyddiadau unigryw i Gymru a Chastell-nedd Port Talbot. Meithrin partneriaethau o safon uchel gyda threfnwyr digwyddiadau i sicrhau cydbwysedd o gerddoriaeth, chwaraeon, a digwyddiadau eraill diwylliannol. | Cyngor CNPT gyda phartneriaid o'r sector gwirfoddol a masnachol | • Sicrhau bod digwyddiadau mawr sydd eisoes yn bodoli yn cael sylw mewn calendr digwyddiadau cynhwysfawr, ar dudalennau fel "Beth sy Mlaen" CNPT, ac mewn deunydd marchnata/cyfathrebu arall (Ch4 2024).<br>• Nodi bylchau yn y calendr (o ran amser a math/thema/graddfa digwyddiadau) a chynnal ymarferiad i gynnig digwyddiadau addas i lenwi'r bylchau (Ch4 2024).<br>• Adolygu/asesu'r opsiynau a gynhyrchwyd a datblygu achosion busnes ar gyfer y rhai mwyaf tebygol o gyflawni'r amcanion strategol (yn arbennig o ran iechyd a llesiant), gyda chyllidebau cytbwys (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 25 | Iechyd a Lles | Manteisio ar y ffaith bod gwasanaethau Celtic Leisure yn cael eu darparu'n fewnol eto i adolygu strwythurau staffio, rhaglenni a gweithrediadau busnes er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion poblogaeth CNPT yn awr ac i'r dyfodol. | Cyngor CNPT | • Cynnal adolygiad (Ch3 2023).<br>• Dechrau gweithredu'r newidiadau o ganlyniad i hynny (Ch2 2024).<br>• Cwblhau'r newidiadau mwyaf sylweddol a gynigiwyd i'r strwythur a'r rhaglenni (Ch4 2024). |
| 26 | Iechyd a Lles | Adeiladu ar y dysgu o brosiect y Plaza Newydd a mannau eraill i gael hyd i ffyrdd o arallgyfeirio defnydd ystod o adeiladau ar draws Castell-nedd Port Talbot fel bod mwy o bobl yn ymwneud â mwy o weithgareddau diwylliannol er budd i'w llesiant. | Cyngor CNPT | • Cwblhau adroddiad yn nodi'r cyfleoedd posibl ar gyfer prosiectau tebyg a gwblheir yn y dyfodol (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 27 | Iechyd a Lles | Ystyried teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus fel blaenoriaeth ym mhob prosiect diwylliant a threftadaeth, Adolygu a datblygu cysylltedd o amgylch a rhwng asedau allweddol ar gyfer beicio, cerdded a thrafnidiaeth werdd, yn arbennig lle mae'n hawdd rhoi'r rheiny ar waith (e.e. Mynachlog Nedd, prosiect llwybr halio'r Gamlas). Darparu asedau cymunedol hygyrch ar gyfer adloniant llesol, teithio a chyrchfannau treftadaeth i ymwelwyr, gan gysylltu cymunedau ar yr un pryd. | Cyngor CNPT a phartneriaid perthnasol (e.e. Perchnogion/ ymddiriedolaethau camlas) | • Cynnal adolygiad a chanfod enillion cyflym a fyddai o fudd sylweddol i atyniadau diwylliannol (e.e. mân newidiadau i'r amserlen, gosod wyneb newydd ar lwybrau, cyfeirbwyntio, adleoli arosfannau bysiau, parcio ychwanegol i feiciau) (2024 Ch4).<br>• Sicrhau bod elfennau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn cael blaenoriaeth wrth gyflawni prosiect Cronfa Codi'r Gwastad (LUF), cynnig Margam i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NHLF) a phob prosiect arall sylweddol (2025 Ch2).<br>• Nodi a blaenoriaethu gwaith mwy sylweddol sy'n ofynnol (e.e. llwybrau beicio newydd, llwybrau newydd i fysiau) fel eu bod yn cyfateb i'r rhestr flaenoriaeth o brosiectau mawr (Cam Gweithredu 02) (2025 Ch4). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 28 | Doniau ★ | Coleg Castell-nedd a CHART i archwilio'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer adfywio treftadaeth ar amrywiaeth o lefelau, a datblygu a chyflwyno cyrsiau priodol, er mwyn darparu gwaith medrus, sicrhau cadwraeth asedau treftadaeth, a sicrhau bod yr economi'n tyfu. | Cyngor CNPT, Coleg Castell-nedd, CHART | • Cytuno ar amserlen gyflawni erbyn Ch3 2024 fel rhan o ffurfio'r Bartneriaeth Diwylliant. |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 29 | Doniau ★ | Sicrhau bod pob ysgol ar draws y fwrdeistref yn ymwybodol o'r cyfleoedd i integreiddio hanes lleol a diwylliant yn eu cwricwlwm. Sicrhau bod y disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd ar gyfer ymweliadau digidol ac wyneb yn wyneb gyda phobl a lleoedd lleol diddorol. Cynyddu cyfran y disgyblion sy'n ymweld ag asedau diwylliannol y fwrdeistref o flwyddyn i flwyddyn. | Cyngor CNPT | • Briffio cydweithwyr addysg ar y Strategaeth Diwylliant (Ch4 2023).<br>• Sicrhau bod pob cydweithiwr ysgol ac addysgu yn derbyn y Strategaeth Diwylliant (Ch4 2023).<br>• Defnyddio digwyddiadau i athrawon, cylchlythyron, HMS, dysgu ar-lein ac offer eraill i sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o gynigion diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd (Ch3 2024).<br>• Dyfeisio cynigion ychwanegol o ran ymweliadau addysgol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau treftadaeth a diwylliant allweddol ar draws y fwrdeistref ac ar-lein (o Ch4 2024). |
| 30 | Doniau ★ | Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r tâl mae'n ei godi am amrywiaeth o weithgareddau diwylliant, ac yn annog partneriaid diwylliannol i wneud yr un fath, gyda phwyslais ar ddatblygu mecanweithiau i annog mwy o gyfranogiad gan y rhai lleiaf abl i dalu. | Cyngor CNPT a phartneriaid | • Cynhyrchu adroddiad yn cynnwys argymhellion (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 31 | Doniau | Gan adeiladu ar yr ymgyrch fawr i Estyn Llaw (Big Help Out) (Mai 2023) a mentrau gwirfoddoli eraill, gofyn i'r CGG roi arweiniad, ac annog pob sefydliad diwylliannol i gydweithio er mwyn darparu cyfleoedd o safon uchel i wirfoddoli'n ddiwylliannol gyda phwyslais arbennig ar gynyddu amrywiaeth y gwirfoddolwyr. | CGG CNPT | • Casglu/coladu data gwirfoddoli i'w ddadansoddi oddi wrth gyrff diwylliannol, celfyddydau a chwaraeon (Ch2 2025).<br>• Cynhyrchu argymhellion i wella gwirfoddoli ar sail data ac ymgynghori â rhanddeiliaid (Ch4 2025).<br>• Ariannu a gweithredu rhaglen well ar gyfer gwirfoddoli diwylliannol (Ch2 2026). |
| 32 | Arloesi | Sicrhau bod y gwelliannau cyfalaf yn y Gnoll, a ariannwyd gan Gronfeydd Codi'r Gwastad, yn mynd law yn llaw â chynlluniau gweithgaredd o safon uchel sy'n sbarduno mwy o ymgysylltu â'r asedau diwylliannol a gafodd eu gwella yn y modd hwn. Dylai hyn gynnwys ceisiadau ariannu am waith refeniw. | Cyngor CNPT | • I gyfateb i amserlenni rhaglen gyfalaf Cronfa Codi'r Gwastad (LUF). |
| 33 | Calon Gymreig | Cwblhau'r Strategaeth Adeiladau Treftadaeth, ac adrodd yn ôl i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. | Cyngor CNPT | • I'w gwblhau a'i gyhoeddi erbyn 2024. |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 34 | Calon Gymreig | Cydweithio ar raglen iaith a hunaniaeth Gymreig a rennir ar draws sefydliadau diwylliannol. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Sefydliadau partner yn cyflwyno gweithgareddau Cymraeg a chynlluniau datblygu i'r Bartneriaeth (Ch3 2024).<br>• Y Bartneriaeth Diwylliant yn cytuno ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn cydweithio i'w cyflawni (o Ch4 2024). |
| 35 | Calon Gymreig | Helpu i sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn mabwysiadu'r Gymraeg trwy eu busnes a'u marchnata o ddydd i ddydd, a'u bod yn adlewyrchu eu hunaniaeth Gymreig. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Cynnull seminar/bord gron i drafod mwy o ddefnydd o Gymraeg achlysurol ar draws arwyddion, dehongli a chyfathrebu Saesneg — gan ddilyn ysbrydoliaeth Bannau Brycheiniog a mentrau eraill diweddar (Ch3 2024). |
| 36 | Calon Gymreig | Datblygu Strategaeth Hunaniaeth Gymreig a'r Iaith Gymraeg ar gyfer Parciau a Mannau Agored, gan fwyafu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol a diwylliannol penodol Gymreig yn y mannau pwysig hyn. | Cyngor CNPT (y tîm parciau) | • Adolygu safon y ddarpariaeth Gymraeg ar draws cyfeirbwyntio, dehongli a gweithgareddau mewn parciau a mannau agored (Ch2 2025).<br>• Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella, gyda gweithgareddau, allbynnau, cyfrifoldebau a therfynau amser clir (Ch4 2025). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 37 | Calon Gymreig | Rhoi ar waith amcan 'cryfhau ein hymrwymiad i iaith a diwylliant Cymru', fel y soniwyd yng Nghynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2022-2027, 'Adfer, Ailosod, Adnewyddu'. | Cyngor CNPT | • Gwneud gwaith i ddadansoddi pa gamau sy'n angenrheidiol a chreu llif gwaith manwl (Ch1 2025). |
| 38 | Calon Gymreig | Cynnal ffocws ar adnoddau marchnata a chyhoeddusrwydd a rennir ar gyfer hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, gan ychwanegu at waith presennol menter dwristiaeth Calon Ddramatig Cymru ac eraill. | Cyngor CNPT (Yr Economi Ymwelwyr/ Cyfathrebu) | • Parhaus o Ch4 2023. |
| 39 | Arloesi | Gweithio gyda chymunedau lleol a'r sector diwylliannol i gynhyrchu gwaith newydd a digwyddiadau sy'n cefnogi ac yn dathlu amrywiaeth a hanesion y Fwrdeistref, ac yn adlewyrchu hunaniaeth cymdogaethau lleol. | Cyngor CNPT, Grŵp Rhwydwaith Ethnig CNPT | • Gweithio gyda chymunedau lleol i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau peilot cymdogaethau bychain yn haf 2025. <br> • Adolygu llwyddiant digwyddiadau haf 2025 a datblygu rhaglen fwy helaeth (o 2026 ymlaen) yn dathlu amrywiaeth CNPT, ac yn cyfeirio cynulleidfaoedd newydd ymlaen at gyfleoedd diwylliannol. |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 40 | Ynni ac Egni | Gan adeiladu ar gyflawniadau llyfrgelloedd a mannau eraill fel canolbwyntiau cynnes yn 2022/23, datblygu cyfleoedd diwylliannol a chreadigol ar gyfer y mannau hynny mewn gaeafau dilynol — yn arbennig troi at grwpiau gwirfoddol lleol i ddarparu perfformiadau a digwyddiadau "unnos". | Y CGG, Cyngor CNPT (llyfrgelloedd) | • Nodi canolbwyntiau cynnes ar gyfer gaeaf 23/24 (Ch3 2023).<br>• Ymgeisio am gyllid ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau graddfa fach yn y mannau hyn, gan gynnwys gwerthuso (Ch4 2023).<br>• Cyflawni gweithgareddau a chynllunio ar gyfer ailadrodd yn y dyfodol (o Ch4 2023). |
| 41 | Arloesi | Cyrchu a hyrwyddo defnyddiau cyfamserol mewn adeiladau gwag er mwyn cefnogi pobl leol sy'n greadigol a sbarduno ecoleg ddiwylliannol yr ardal. Gweithio gyda thirfeddianwyr a datblygwyr i frocera cytundebau fydd yn sefydlu gofodau creadigol cyfamserol. | Cyngor CNPT a'r Ardal Gwella Busnes (BID) | • Creu cofrestr o berchnogion eiddo masnachol mwy o faint sy'n barod i ganiatáu defnydd cyfamserol a sefydlu mecanwaith i helpu pobl a sefydliadau creadigol i gael mynediad i'r cyfleoedd hynny (Ch1 2026). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 42 | Arloesi | Datblygu arlwy Parc Gwledig Margam, gan gynnwys gwelliannau i'r Meysydd Parcio, profiad Cwsmeriaid, arlwyo a chreu safle newydd i Gartrefi Modur. | Cyngor CNPT | • Adolygu'r seilwaith meysydd parcio (Ch2 2024).<br>• Adolygu'r hyn a gynigir o ran arlwyo (Ch3 2023).<br>• Cyflwyno safle newydd ar gyfer cartrefi modur (Ch4 2024). |
| 43 | Iechyd a Lles | Archwilio'r model sylfaenol ar gyfer parciau, fel bod modd i ymddiriedolaeth gyflwyno mwy o gyfleoedd gwirfoddoli a gweithio i ystod eang o bobl. Cynnal peilot cychwynnol mewn un neu ddau barc am ddwy flynedd er mwyn deall yr effeithiau. | Cyngor CNPT | • Dethol parciau ar gyfer y cynllun peilot (Ch1 2026).<br>• Nodi partneriaid i gyflwyno'r peilot a chontractio gwerthusiad annibynnol (Ch3-4 2026).<br>• Cyfnodau peilot (2026-2027). |
| 44 | Doniau | Datblygu amserlenni/cyrsiau addysg oedolion newydd a/neu fwy hygyrch mewn meysydd sy'n cefnogi'r sector creadigol (ysgrifennu, cerddoriaeth, crefftau etc.) a iaith a diwylliant Cymru. | Cyngor CNPT, Coleg CNPT | • Adolygu'r arlwy ar hyn o bryd o ran cyrsiau a nodi cyfleoedd i gyfateb i'r Strategaeth Diwylliant (Ch1 2025).<br>• Dechrau cyflwyno cyrsiau ychwanegol neu amserlen ddiwygiedig (Ch3 2054). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 45 | Ynni ac Egni | Gwella mynediad at gyfeirbwyntio a dehongli yn Noc Brunel, Llansawel. Archwilio cyfleoedd i sicrhau bod adeilad y Tŵr Cronni yn cael ei ddefnyddio eto. | Cyngor CNPT gydag Ymddiriedolaeth Doc Brunel a Sefydliad y Peirianwyr | • Comisiynu cynnig o ran mynediad, cyfeirbwyntio a dehongli (Ch3 2024).<br>• Asesiad o'r opsiynau o ran y tŵr cronni (Ch3 2024).<br>• Rhoi gwelliannau mynediad, cyfeirbwyntio a dehongli ar waith (Ch2 2025).<br>• Ceisio cyllid ar gyfer y Tŵr Cronni os ceir hyd i opsiwn dichonadwy (Ch3 2025). |
| 46 | Ynni ac Egni | Gweithio gyda CADW/Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno ateb cynaliadwy ar gyfer adeilad glofa Cefn Coed, fel rhan o amcanion blaenoriaeth y Strategaeth Adeiladau Treftadaeth, gan adeiladu ar bapur Opsiynau 2022 ar gyfer y Dyfodol. | Cyngor CNPT gyda CADW | • Penderfyniad mewn egwyddor i roi argymhellion yr adroddiad Opsiynau ar waith neu beidio (Ch2 2024). |
| 47 | Arloesi | Datblygu'r arlwy yn sinema Pontardawe, gyda sinema newydd sy'n cynnig ystod ehangach o sinema brif ffrwd a chelf, yn amodol ar achos busnes dichonadwy. | Cyngor CNPT | • Gwaith yn dechrau ar y safle (Ch1 2024).<br>• Prosiect wedi'i gwblhau ac ar agor (Ch4 2024). |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 48 | Arloesi | Cryfhau tîm Cyngor CNPT fel bod modd cyflawni'r Strategaeth Diwylliant. Bydd angen 2 swydd CALl ychwanegol am 3 blynedd i gyflawni eitemau'r cynllun gweithredu yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 24 a Mawrth 27. Sicrhau ffocws sylweddol o fewn y rolau hynny ar chwilio am arian allanol pellach, i sicrhau eu bod yn hunangynhaliol yn y tymor hir. | Cyngor CNPT | • Cytuno mewn egwyddor (Ch3 2023).<br>• Drafftio disgrifiadau rolau a hysbysebu (Ch4 2023).<br>• Penodi (Ch1 2024).<br>• Rolau'n cychwyn (Ch2 2024). |
| 49 | Arloesi | Asesu dichonoldeb datblygu cynnig i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn 2029 a/neu 2033 (mewn partneriaeth) a'r awydd i wneud hynny. Paratoi cynnig os bydd y gwaith dichonoldeb yn gadarnhaol. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Dechrau asesu awydd a dichonolrwydd (Ch4 2023).<br>• Gwneud penderfyniad am gynigion (Ch1 2024). |
| 50 | Arloesi | Cynnal Cynhadledd Flynyddol i ddod â phartneriaid ynghyd mewn cyd-destun anffurfiol i gyfnewid syniadau, anghenion, uchelgeisiau ac arfer gorau. | Y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol | • Y cynllun yw cynnal digwyddiad yn flynyddol o 2024. Bydd angen i'r Bartneriaeth Diwylliant benderfynu ar yr adeg orau o'r flwyddyn i ystyried digwyddiadau eraill ac ymrwymiadau cyfranogwyr. |

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant**

| Rhif y Cam Gweithredu | Prif Thema | Camau Gweithredu | Sefydliad(au) sy'n arwain | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| 51 | Arloesi | Cyflawni strategaeth llyfrgelloedd newydd. | Cyngor CNPT | • Mabwysiadu'r strategaeth newydd erbyn Ch4 2024. |
| 52 | Ynni ac Egni | Gweithio gyda Tata Steel, sy'n gyflogwr lleol allweddol yn y sector dur, ac â chysylltiad amlwg â threftadaeth ddiwylliannol Castell-nedd Port Talbot, i gael hyd i ffyrdd gwell o adrodd hanes Dur Port Talbot, o bosib trwy atyniad i ymwelwyr. | Cyngor CNPT | • Cynnal cyfarfodydd cychwynnol (Ch1 2024).<br>• Asesu dichonoldeb amrywiol opsiynau (Ch4 2024). |
| 53 | Arloesi | Sicrhau bod y sector diwylliant yn gweithio gyda gwasanaethau cymorth busnes Cyngor CNPT a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cefnogaeth addas ar gael i fasnachwyr ar eu liwt eu hun a micro-fusnesau yn y sector diwylliannol er mwyn datblygu a thyfu. | Cyngor CNPT | • Adolygu'r ddarpariaeth cymorth i fusnesau sy'n briodol ar gyfer mentrau diwylliannol a rhai ar eu liwt eu hunain (Ch1 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 54 | Ynni ac Egni | Yn 2025 bydd yn ganmlwyddiant geni Richard Burton. Mae galw amlwg gan ystod o randdeiliaid am gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu hynny, a byddwn ni'n cydweithio i greu cyfres briodol o ddigwyddiadau a fydd yn ennyn diddordeb pobl leol ac yn sbarduno'r economi ymwelwyr. | Cyngor CNPT | • Cynllunio cychwynnol ar gyfer digwyddiadau a llunio rhestr o'r gweithgareddau a gynlluniwyd (Ch4 2023).<br>• Datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r dathliad sydd i ddod a datblygu digwyddiadau pellach (Ch1-3 2024).<br>• Ceisiadau ariannu ar gyfer digwyddiadau (Ch2 2024).<br>• Cyhoeddi rhaglen lawn o ddigwyddiadau (Ch4 2024).<br>• Cynnal digwyddiadau ar hyd 2025 gyda ffocws ar y dyddiad geni — 10 Tachwedd). |
| 55 | Doniau | Gwneud peth gwaith i ddod â rhai o'r cyfleoedd cerddorol ardderchog sydd eisoes yn bodoli yn y fwrdeistref ynghyd (e.e. Clwb Rotari Castell-nedd, Eglwys Dewi Sant Castell-nedd, corau meibion) mewn digwyddiad â mwy o ffocws, megis mis cerddoriaeth neu eisteddfod leol. | Cyngor CNPT | • Digwyddiad peilot ar raddfa fach (Ch3 2025).<br>• Penderfyniad ar ddigwyddiadau cerddoriaeth ar raddfa fwy i'r dyfodol (Ch4 2025). |

| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Prif Thema** | **Camau Gweithredu** | **Sefydliad(au) sy'n arwain** | **Cerrig Milltir** |
| 56 | Ynni ac Egni | Mae gan grŵp Calon Afan lawer o syniadau arloesol ar gyfer diogelu, gwella a dehongli treftadaeth yng Nghwm Afan. Byddwn ni'n ceisio datblygu'r rhwydwaith hwn er mwyn cynnwys ystod eang o randdeiliaid ac annog cyflawni prosiectau o safon uchel. | Grŵp Calon Afan | • Sefydlu Grŵp Calon Afan yn ffurfiol (Ch1 2024).<br>• Cyfarfodydd rhanddeiliaid perthnasol i helpu i bennu blaenoriaethau (Ch2 2024). |
| 57 | All | Adolygu'r Cynllun Gweithredu hwn yn flynyddol, gan gynnal blaengynllun manwl dwy flynedd, ac amlinellu camau gweithredu ar gyfer 2-3 blynedd arall. | Y Bartneriaeth Diwylliant | • Adolygiad cyntaf o'r Cynllun Gweithredu (Ch3 2024). |

# Atodiad A



A

# Atodiad A


## Crynodeb o'r Atebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae'r papur hwn yn crynhoi'n fyr ymatebion y cyhoedd i rai o'r cwestiynau allweddol yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae dadansoddiad llawn, gan gynnwys manylion yr ymatebion i bob cwestiwn, a phroffil demograffig y rhai a ymatebodd i'r arolwg, ar gael ar ffurf dogfen ar wahân.

### Dull Gweithredu ac Ymatebion

Cynhaliwyd yr holiadur cyhoeddus ar-lein ac mewn lleoliadau ar draws y fwrdeistref ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Cafodd ei hyrwyddo'n helaeth trwy wefan y Cyngor, sgriniau teledu yng Ngorsafoedd Bysiau Castell-nedd a Phort Talbot, a Gorsaf Drenau Castell-nedd, ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn datganiad i'r wasg ac mewn negeseuon e-bost at Aelodau Etholedig Cyngor CNPT, Panel Dinasyddion CNPT, a rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw'n flaenorol gyda cheisiadau i'w hyrwyddo trwy eu sianeli eu hunain.

Daeth cyfanswm o 288 o ymatebion i law, y mwyafrif llethol (82.3%) gan drigolion Castell-nedd Port Talbot. Roedd y rhain yn cynnwys pymtheg aelod etholedig (o Gyngor Castell-nedd Port Talbot, y Senedd, a'r Cynghorau Cymuned).



## Ymgysylltiad Diwylliannol

Roedd y rhan hon o'r arolwg yn ceisio deall a oedd pobl wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r tabl isod yn dangos y gweithgareddau yn ôl trefn canran yr ymatebwyr a fu'n cyfranogi ynddynt dair gwaith neu fwy yn ystod y 12 mis diwethaf:

| Gweithgaredd | % oedd wedi gwneud hyn 3 gwaith neu fwy yn ystod y 12 mis diwethaf |
|---|---|
| Ymweld â sinema | 42% |
| Ymweld â llyfrgell | 42% |
| Gwylio cyngerdd neu gig | 38% |
| Gwylio drama, sioe gerdd neu berfformiad theatrig arall | 35% |
| Gwylio gêm neu ddigwyddiad chwaraeon lleol | 35% |
| Mynychu digwyddiad neu ŵyl | 32% |
| Cyflawni gweithgaredd mewn canolfan hamdden leol | 31% |
| Ymweld ag amgueddfa | 29% |
| Cymryd rhan mewn prosiect cymunedol creadigol | 26% |
| Ymweld ag oriel gelf neu arddangosfa | 25% |
| Cymryd rhan mewn dosbarth creadigol neu weithdy | 24% |
| Cyfranogi mewn gweithgaredd mewn clwb chwaraeon lleol | 22% |
| Gwirfoddoli (e.e. hyfforddi) mewn clwb chwaraeon lleol | 13% |
| Cymryd rhan mewn gêm neu ddigwyddiad chwaraeon lleol | 11% |
| Gwylio perfformiad dawns | 7% |



## Asedau Lleol

Cyflwynwyd crynodeb o'r asedau diwylliannol lleol i'r ymatebwyr, ar sail ein canfyddiadau cychwynnol, a gofynnwyd iddyn nhw i ba raddau roedden nhw'n cytuno â'r asesiad yma ac a oedden nhw'n "teimlo bod unrhyw beth ar goll o'r adran hon a/neu y dylid tynnu sylw ato yn y strategaeth derfynol fel anhawster neu her sydd angen sylw?".

O'r 213 o ymatebwyr oedd wedi darllen y gosodiad ynghylch asedau, roedd 47% yn cytuno'n gryf, a 50% yn cytuno i ryw raddau. Gwnaeth dros 120 o bobl sylwadau ar ein hasedau diwylliannol, a dyma rai pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg:

- Cafwyd llawer o sylwadau ar asedau unigol y teimlai pobl ddylai gael sylw yn y strategaeth derfynol. Soniwyd amlaf am lyfrgelloedd, camlesi, gwirfoddolwyr, artistiaid, a chrefftwyr, Traeth Aberafan, Pontardawe, y twneli, Parc Coedwig Afan, Rhodfa Gelf Port Talbot, Parc Jersey, a Sarn Helen.
- Nid oedd llawer o alw am asedau ychwanegol – ychwanegu amgueddfa newydd ac ailagor/ailddefnyddio Amgueddfa Glofa Cefn Coed oedd y pethau y gofynnwyd amdanynt amlaf.
- Roedd llawer o'r sylwadau yn trafod cyfeirbwyntio, mapiau a marchnata – sy'n arwydd bod yr ymateb yn gweld bod yr asedau'n dda, a bod angen rhoi sylw'n bennaf i gynyddu ymwybyddiaeth ohonyn nhw.
- Hoffai'r ymatebwyr weld hanes hŷn yr ardal (neolithig, Rhufeinig a chyn-ddiwydiannol) yn cael sylw manylach.
- Soniwyd am drafnidiaeth gyhoeddus wael fel problem wrth gael mynediad i asedau diwylliannol.

## Anawsterau a Heriau

Cyflwynwyd crynodeb o'r anawsterau a'r heriau i'r ymatebwyr, a seiliwyd hynny ar ddogfen y canfyddiadau cychwynnol. O'r 210 o ymatebwyr a ddarllenodd y gosodiad ynghylch anawsterau a heriau roedd 61% yn cytuno'n gryf, a 37% yn cytuno i ryw raddau (cyfanswm o 98%). Dyma'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o fwy na 100 o sylwadau ar y materion hyn:

- Y broblem y cyfeiriwyd ati amlaf o bell ffordd oedd darpariaeth wael o ran trafnidiaeth gyhoeddus.
- Roedd teimlad yn y sylwadau Cymraeg a Saesneg a gyflwynwyd bod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Cydnabyddiaeth bod cynhwysiad yn wael o ran anabledd – mae problem mynediad corfforol yn achos rhai safleoedd a digwyddiadau, ond roedd cyfatebiaeth gref â thrafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal.
- Her cysylltu'r "lleoedd niferus i ymweld â nhw" yn effeithiol – o ran trafnidiaeth, ond hefyd trwy lwybrau, gwybodaeth ac arwyddion.
- Yr angen am gysylltu gweithgareddau diwylliannol â'r agenda iechyd a llesiant.
- Awydd i gofnodi atgofion am ddiwydiannau tra'u bod yn rhan o atgofion byw.
- Angen osgoi gorddibyniaeth ar dreftadaeth ddiwydiannol a datblygu arlwy amrywiol o ran treftadaeth, sy'n adlewyrchu'r cyfnod hanesyddol hwy.

## Cryfderau a Chyfleoedd

Cyflwynwyd crynodeb o gryfderau a chyfleoedd i'r ymatebion, a thynnwyd y rheiny o'r ddogfen canfyddiadau cychwynnol. O'r 204 o ymatebwyr a ddarllenodd y gosodiad ynghylch cryfderau a chyfleoedd, roedd 39% yn cytuno'n gryf, a 59% yn cytuno i ryw raddau (cyfanswm o 98%). Roedd y gyfradd oedd yn cytuno yn achos y cwestiwn hwn yn sylweddol is nag yn yr adran heriau a gwendidau, oedd yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn fwy ymwybodol o'r agweddau mwy negyddol. Dyma rai themâu allweddol neu rai oedd yn codi droeon yn y 100+ o sylwadau a ddaeth i law:

- Yr angen am bwysleisio gwaith cymunedol ac ar raddfa fach, dan arweiniad gwirfoddolwyr yn bennaf, yr oedd llawer yn ei weld fel cryfder arbennig.
- Effeithiolrwydd y sector gwirfoddol wrth gydweithio i gyflwyno manteision diwylliannol ac eraill.
- Roedd yr ystod o weithgareddau awyr agored yn enghreifftiau da o gyfleoedd i'r dyfodol, gyda phosibilrwydd tyfiant.
- Roedd yr heriau roedd cyfleusterau hamdden yn eu hwynebu yn cael eu cydnabod, a chafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ar y bwriad i ddychwelyd y cyfleusterau i ofal uniongyrchol y Cyngor.

## Gweledigaeth

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'n gweledigaeth ar gyfer diwylliant Castell-nedd Port Talbot i'r ymatebwyr (Adran 6 uwchben), a gofyn iddyn nhw oedd ganddyn nhw awgrymiadau am bethau i'w newid ynddi. Roedd y sylwadau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r weledigaeth, ac a arweiniodd at newidiadau iddi yn y Strategaeth derfynol, yn cynnwys:

- Mae angen i'r weledigaeth gyfeirio'n fwy penodol at dreftadaeth naturiol.
- Mae angen cryfder gweledigaeth ac arweinyddiaeth i adennill hunaniaeth (Gymreig) yr ardal.
- Bod yn eglur ynghylch yr angen am bartneriaeth ar draws sectorau (cyhoeddus/preifat/trydydd sector).
- Mwy o bwyslais ar lesiant yn y weledigaeth.
- Pwyslais ar arloesi gyda ffyrdd newydd o weithio a chydweithio.

## Themâu Strategol

Cyflwynwyd pum thema strategol gychwynnol i'r ymatebwyr (arloesi, pŵellllr, natur a llesiant, teithio llesol heb frysio, a Cymry i'r carn) a gofynnwyd a oedden nhw'n cytuno â nhw ac a oedden nhw'n teimlo bod unrhyw beth ar goll a/neu bod angen ei amlygu yn y strategaeth derfynol. Gwnaed sylwadau ar y Themâu gan fwy na 70 o bobl, ac mae hynny wedi dylanwadu'n sylweddol ar y themâu terfynol, gan gynnwys newidiadau i gynnwys y themâu a'r dull o'u mynegi.

## Deilliannau'r Strategaeth Diwylliant

Cyflwynwyd wyth deilliant posibl i'r ymatebwyr o ran Strategaeth Diwylliant:

- **Creu swyddi** – creu cyflogaeth i bobl leol.
- **Effaith gymdeithasol** – gwella addysg, iechyd a llesiant pobl leol.
- **Effaith ddiwylliannol** – gwella safon ac enw da celfyddydau a diwylliant lleol.
- **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (CAC)** – ehangu mynediad i ddiwylliant a chyfranogiad ynddo.
- **Cynaliadwyedd** – diogelu/hybu'r amgylchedd ac asedau naturiol.
- **Diogelu Treftadaeth** – diogelu/hybu treftadaeth leol ac asedau hanesyddol.
- **Cynulleidfaoedd Newydd a Thwristiaeth** – denu mwy o bobl ac arian i'r ardal.
- **Gwirfoddoli** – datblygu'r rhwydwaith gwirfoddolwyr i gefnogi gweithgaredd diwylliannol.

Gofynnwyd iddyn nhw eu rhoi yn eu trefn (o 1-8, gyda rhif un yn cynrychioli'r pwysicaf) yn ôl pa rai roedden nhw'n teimlo ddylai gael blaenoriaeth. Y blaenoriaethau a fynegwyd oedd:

| Deilliant | Safle |
|---|---|
| Creu Swyddi | 1 |
| Effaith Gymdeithasol | 2 |
| Cynaliadwyedd | 3 |
| Diogelu Treftadaeth | 4 |
| Effaith Ddiwylliannol | 5 |
| Cynulleidfaoedd newydd a Thwristiaeth | 6 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad | 7 |
| Gwirfoddoli | 8 |

Nododd llawer o'r ymatebwyr fod cysylltiad rhwng y deilliannau hyn a'i gilydd, ond yn ein barn ni, mewn byd lle bo cyfyngu ar adnoddau, mae rhyw syniad o flaenoriaethau yn werthfawr. Nod y Strategaeth Diwylliant yw adlewyrchu blaenoriaethau creu swyddi ac effaith gymdeithasol, sydd hefyd yn cyfateb yn dda i flaenoriaethau ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## Blaenoriaethau Diwylliannol

Cyflwynwyd pymtheg agwedd ar fywyd diwylliannol i'r ymatebwyr a gofyn iddyn nhw eu rhoi yn eu trefn (o 1-15, gyda rhif un yn cynrychioli'r pwysicaf) yn ôl i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylen nhw gael blaenoriaeth i'w cefnogi a'u datblygu yn y strategaeth diwylliant newydd. “Beth sydd bwysicaf/lleiaf pwysig i chi?” Yn y drefn a roddwyd, dyma'r blaenoriaethau a fynegwyd:

| Deilliant | Safle |
|---|---|
| Parciau a mannau cyhoeddus | 1 |
| Treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol | 2 |
| Cyfleusterau hamdden cymunedol | 3 |
| Llyfrgelloedd | 4 |
| Theatrau a'r celfyddydau perfformio | 5 |
| Amgueddfeydd ac orielau | 6 |
| Lleoliadau (ar gyfer celfyddydau byw, cerddoriaeth, digwyddiadau) | 7 |
| Digwyddiadau a gwyliau | 8 |
| Addysg greadigol a diwylliannol | 9 |
| Cerddoriaeth a cherddorion | 10 |

| Deilliant | Safle |
|---|---|
| Lle creadigol a diwylliannol i weithio | 11 |
| Gweithgareddau celfyddydau cymunedol | 12 |
| Clybiau chwaraeon | 13 |
| Archifau a chasgliadau | 14 |
| Celfyddyd Weledol ac artistiaid | 15 |

Y gweithgareddau diwylliannol hynny y gwneir y defnydd mwyaf ohonynt oedd yn sgorio uchaf i raddau helaeth (parciau, cyfleusterau hamdden, llyfrgelloedd) ac roedd dosbarthiad y sgoriau cyfartalog yn rhesymol. Fodd bynnag, roedd effaith “clystyru” amlwg, gyda 2.03 phwynt yn unig yn gwahanu safle 2 a safle 12, sy’n awgrymu bod pobl am weld y Strategaeth Diwylliant yn cefnogi pob agwedd ar fywyd diwylliannol. Mae’r Strategaeth derfynol yn adlewyrchu hyn drwy roi sylw i bob agwedd ar fywyd diwylliannol, ond gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwella ac ehangu mynediad i’r rhannau hynny o’r seilwaith diwylliannol y mae trigolion ac ymwelwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf.



